

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 471 • Tachwedd 2016 • 50c

Gwobr Genedlaethol i Ynni Ogwen

Ar y 4ydd o Dachwedd, bu dau o Gyfarwyddwyr Ynni Ogwen i lawr yng Nghaerdydd yn seremoni wobrwyo genedlaethol Renewables UK Cymru. Roedd yr achlysur yn gyfle i gydnabod llwyddiannau a gwobrwyo goreuon Cymru yn y maes ynni adnewyddadwy, ac mae'n dda gallu cyhoeddi mai'r fenter ifanc o Ddyffryn Ogwen enillodd y wobwr gyntaf yn y categori Ymgysylltu Cymunedol! Roedd y beirniaid wedi eu plesio yn fawr â holl waith caled y grŵp wrth godi ymwybyddiaeth am y cynllun ynni dŵr o fewn ein cymuned – gwaith a oedd yn cynnwys ymweliadau â chlybiau, cymdeithasau a holl ysgolion y dalgylch. Casglwyd yr holl

arian i ddatblygu'r cynllun ynni trwy gynllun cyfranddaliadau cymunedol ac mae'n brysur gael ei adnabod fel model o berchnogaeth gymunedol y gall cymunedau eraill ei ddilyn. Roedd Ynni Ogwen Cyf wedi cyrraedd y rhestr fer ynghyd â dau gwmni arall sef Ynni Sir Gâr a chwmni o'r enw Egnida.

Meddai Meleri Davies, Cadeirydd Ynni Ogwen, "Menter ifanc ydy Ynni Ogwen Cyf, felly roedd cyrraedd y rhestr fer yn ddigon o anrhydedd ynddo'i hun ond roedd ennill y wobwr yn goron ar flwyddyn eithriadol o brysur a llwyddiannus i'r grŵp. Mae hi mor braf gallu dod â'r wobwr yn ôl adra i Ddyffryn Ogwen fel cydnabyddiaeth o'r gefnogaeth gawson ni gan ein cymuned."

Mae'r grŵp wedi cyrraedd rhestr fer gwobrau Cynnal Cymru eleni hefyd, a bydd seremoni wobrwyo'r gwobrau hynny'n cael eu cynnal yn adeilad y Senedd yng Nghaerdydd ar yr 17eg o Dachwedd. Edrychwn ymlaen i glywed a fyddant wedi dod i'r brig unwaith eto, a llongyfarchiadau mawr iddynt ar eu llwyddiant hyd yn hyn.

Gwasanaeth Nadolig Cymunedol

yng Nghapel Jerusalem

Nos Sul, Rhagfyr 18
am 7.00pm

Dewch i dathlu'r Ŵyl yng
nghwmni

Côr Meibion y Penrhyn
Côr y Dyffryn
Corau Ysgol Dyffryn Ogwen
ynghyd ag unigolion

Mynediad am ddim!
Gwneir casgliad at achos dyngarol



Croeso cynnes i bawb



Meleri Davies a Keith Jones o Ynni Ogwen yn derbyn y tlws gan Brif Weithredwr y Waterloo Foundation, un o noddwyd gwobrau Renewables UK Cymru.

Panel Golygyddol

- Derfel Roberts**
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

Siân Esmor Rees
☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Ieuan Wyn.

Golygydd mis Rhagfyr fydd
DewiLlewelyn Siôn,
35 – 37 Ffordd Carneddi,
Bethesda. LL57 3SE.
Ffôn: 07940 905181.
dewision@hotmail.co.uk

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 30 Tachwedd,
os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 15 Rhagfyr**
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan
@Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths,
elgangriffiths@btinternet.com
Argraffwyd gan y Lolfa

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn
swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Spar, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Dyddiadur y Dyffryn

- 2016
Tachwedd
- 18 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn
Ogwen. Neuadd Ogwen am 6.00.
- 19 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn
Ogwen. Neuadd Ysgol Dyffryn
Ogwen am 10.00yb.
- 19 Bore Coffi Neuadd Talgai. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.
- 19 Cyfeillion Ysbyty Gwynedd. Noson
“Elvis”. Clwb Pêl-droed Bangor am
7.30
- 21 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid.
2.30 – 4.00
- 23 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
5.00 – 8.00.
- 26 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.
- 26 Ffair Nadolig y Blaid Lafur. Neuadd
Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 29 Cangen Plaid Cymru Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes am 7.00
- 30 Ffair Nadolig Capel Bethlehem
Talybont. Y Festri am 6.30.

- Rhagfyr*
- 01 Sefydliad y Merched Carneddi.
Dathlu'r Nadolig. Cefnfaes am 7.00.
- 03 Bore Coffi Capel Jerusalem.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
- 05 Merched y Wawr Tregarth. Cinio
Nadolig.
- 10 Marchnad Nadolig Ogwen.
Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30.
- 12 Cymd. Hanes D. Ogwen. Dilwyn
Pritchard “Llechid Celts”. Festri
Jerusalem am 7.00.
- 12 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid.
2.30 – 4.00.
- 15 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am
6.45.
- 18 Gwasanaeth Nadolig y Plant a'r
Bobol Ifanc. Capel Carmel
Llanllechid am 4.00yp.
- 18 Gwasanaeth Nadolig Cymunedol.
Capel Jerusalem am 7.00.



Clwb Cyfeillion
Llais Ogwan

- Gwobrau Tachwedd**
- £30.00 (74) Augusta Williams,
7 Bron Arfon, Rachub.
- £20.00 (7) Jean O. Hughes,
Bryn Awel, Talybont.
- £10.00 (78) Dafydd Roberts,
Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas.
- £5.00 (120) Davina Evans,
6 Stryd Morgan, Gerlan.

Y Stryd Fawr yn Bywiogi?

T estun pryder i amryw ohonom dros nifer o flynyddoedd fu gweld y dirywiad yn Stryd Fawr Bethesda. Llai a llai o fusnesau a siopau gwag yn cael eu troi yn fflatiau ac ati.

Ond dyma'r sefyllfa'n gyffredinol yn y trefi bychain, gyda phatrwm siopa wedi newid gan mor rhwydd yw teithio i'r canolfannau mawrion.

Yn ddiweddar, fodd bynnag, gwelsom arwyddion calonogol gyda rhai busnesau newydd wedi ymsefydlu ar y Stryd Fawr ym Methesda, e.e. Crochendy Bethesda, O Law i Law, ANZ Curio, a chyn bo hir bydd busnes newydd sbon, Cwrw Ogwen, yn dod i Rhes Ogwen. Cyn hynny, wrth gwrs, agorwyd Siop Ogwen, Bwyty Indiaidd Shirin's, Best Kebabs ac ambell un arall. Braf hefyd yw gweld tafarnau fel Y Tarw a'r Llangollen (sydd yn ailagor yn ystod y mis) yn edrych yn dda wedi iddynt gael eu paentio.

Dymuniad llawer ohonom, yn cynnwys Cyngor Cymuned Bethesda, Partneriaeth Ogwen a Balchder Bro Ogwen fyddai gweld y Stryd Fawr yn ffynnu unwaith

eto – ac mae gennym i gyd fel trigolion yr ardal, ein rhan i'w wneud., megis CEFNOGI BUSNESAU LLEOL!



Meithrin Balchder yn yr Iaith

Yn ystod mis Hydref, daeth Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes y Llywodraeth, i ymweld â rhai o ysgolion Dyffryn Ogwen i weld y Siarter Iaith yn cael ei gweithredu. Cyflwynodd Cyngor Gwynedd y Siarter Iaith i ysgolion cynradd y sir yn 2011 er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymdeithasu'r plant, ac mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ei fod yn gynllun y dylid ei weithredu ledled Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd, ei fod yn falch iawn o allu cael cyfle i arddangos y gwaith

gwirioneddol arbennig sy'n digwydd yn ysgolion Gwynedd i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Meddai, "Roedd hi'n braf gweld brwdfrydedd plant ysgolion Dyffryn Ogwen yng nghwmni Gweinidog y Llywodraeth yn sôn sut mae'n nhw'n gweithredu'r Siarter Iaith."

Mae holl ysgolion cynradd Dyffryn Ogwen wrthi'n egniol a brwdfrydig yn gweithredu'r Siarter Iaith, ac maen nhw wedi cael eu cydnabod am eu gwaith. Rydym fel papur bro yn gwerthfawrogi ymdrechion penaethiaid, staff a llywodraethwyr yr holl ysgolion i gynnal a chryfhau ein hiaith yn ein hardal. Gweler newyddion yr ysgolion.



Alun Davies AC efo rhai o ddisgyblion Ysgol Pen-y-bryn.

Rhoddion i'r Llais

- £5.00 Llewela O'Brien er cof am ei thad, Richard Cyril Thomas, 22 Maes Ogwen, Tregarth a anwyd 17 Tachwedd, 1915 ac a fu farw 13 Rhagfyr, 1988.
- £20.00 Er cof am Llyfnwy Lloyd, Glan Ogwen oddi wrth Sylwen, Eleri, Steven a Ceri.
- £10.00 Oddi wrth Alwena Moore, 1 Lôn Ddŵr, Talybont a theulu'r diweddar Roy Moore.
- £10.00 Mrs Nansi Owen, 8 Rhes William, Bethesda.
- £10.00 Di-enw.
- £10.00 Er cof am Gwilym Llewelyn Williams, Maes Caradog, Nant Ffrancon, oddi wrth y teulu.
- £20.00 I gofio'n annwyl am ben-blwydd mam, nain a hen nain, sef y ddiweddar Mrs Nancy Williams, Ffordd Stesion a fuasai'n 98 mlwydd oed ar 27 Hydref 2016, oddi wrth Blod, Junior a'r teulu.

Diolch yn fawr.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd



Perfformiadau lleol-
Galeri Caernarfon: 18 - 21 Tachwedd (7 sioe)
Tocynnau: 01286 685222
Pontio Bangor: 15 - 17 Rhagfyr (5 sioe)
Tocynnau: 01248 382828

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1986-1988

1986

- 13/01/1986: Marw R. E. (Ted) Brown, yn 70 oed. Cyn-Athro Cemeg a Dirprwy Brifathro Ysgol Dyffryn Ogwen.
- 15/01/1986: Marw Frank Rhys Jones yn Ysbyty Gwynedd, yn 69 oed. Prifathro Ysgol Dyffryn Ogwen 1971-1979.
- 01-02/1986: Y Swyddfa Gymreig yn awdurdodi gwario £105,500 yn ystod 1986-87 ar Neuadd Ogwen.
- 05/1986: Llunfap, o waith E. Meirion Roberts (a'r gwaith ymchwil gan J. Elwyn Hughes) yn portreadu Dyffryn Ogwen a 25 o enwogion lleol, ar werth yn Eisteddfod yr Urdd (am £15 mewn ffrâm, £3 heb ei fframio).
- 27-31/05/1986: Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Ogwen.
- 17/05/1986: Gwynt nerthol yn chwythu pafiliwn Eisteddfod yr Urdd i'r llawr.
- Bysys Crosville yn rhoi'r gorau i redeg bysys o'r Gerlan a Bysys D & G (Dafydd a Gwladys Brotherton) yn cymryd drosodd.
- Dechrau Antur Llanllechid - menter ar y cyd rhwng Awdurdod Iechyd Gwynedd a'r Eglwys, gyda'r gweithgaredd wedi'i ganoli ar yr hen ysgol yn Rachub.

1987

- Tai ar werth: Cae'r Onnen, Cilfodan: £36,000; Y Fron, Cilfodan: £32,500; 8 Ffordd Pant: £32,500; Tŷ Newydd, Y Gerlan: £19,950; Coed Ogwen, 9 Rhos Jâms: £29,850; 67 Stryd Fawr (y 'Coach and Horses'): £19,500; 1 Coetmor Mount: £16,500.
- 20/06/1987: Carnifál Glanogwen.
- 01/08/1987: Marw Emlyn Jones, Y.H., Maes Coetmor, yn 73 oed.
- 08/1987: Ieuan Wyn yn ennill y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog am ei awdl, 'Llanw a Thrai'.
- 18/10/1987: Marw Lewis Hughes, cyn-athro Mathemateg a chyn-ddirprwy brifathro Ysgol Dyffryn Ogwen, yn Ysbyty Llandudno yn

80 oed. Angladd yn Amlogsgfa Bangor 23/10/1987.

- Cau Capel Chwarel Goch (A). Nifer y ffyddloniaid 'wedi mynd i lawr i bedwar'.

1988

- 02/1988: Arddangosfa yng Nghapel Jerusalem ynglŷn â'r ffordd osgoi arfaethedig.
- 03/1988: Capel Bethesda ar werth.
- Cau Capel Brynteg, Bethesda. Aethpwyd â charreg goffa'r Rhyfel Mawr i Goetmor a'r ffenest liw i Ysgol Dyffryn Ogwen. Ymaelododd y ffyddloniaid mewn capeli eraill.
- 03/1988: Y Parchedig Elwyn Roberts, Ficer Glanogwen, yn gadael ar ôl bod yma am 19 blynedd.
- 23/03/1988: Angladd Ernest Roberts. Gwasanaeth yng Nghapel Pendref, Bangor. Ganed yn 1898.
- 25/03/1988: Ailagor Neuadd Ogwen. (Dechreuwyd ar y gwaith o'i hatgyweirio yn 01/1987).
- Dr Dafydd Roberts, Caerwern, Y Gelli, Tregarth, yn cael ei benodi'n Guradur dros Ogledd Cymru i'r Amgueddfa Genedlaethol.
- Tua 05-06/1988: Marw Dr Iorwerth Mostyn Williams, meddyg teulu yn Nyffryn Ogwen am flynyddoedd. Ganed ef yn y Wladfa ond symudodd i Gymru gyda'i rieni pan oedd yn blentyn. Daeth i Fethesda yn 1936 ac yno y bu nes iddo ymddeol yn 1970. Ymunodd Dr Bowen Jones ag ef yn 1947.
- 09/07/1988: Carnifál Tregarth.
- 17/07/1988: Gwasanaeth arbennig i gau Capel Bethesda.
- 03/09/1988: Y Parchedig Arfon Williams (o Fodffordd, Môn) yn dod yn Ficer Plwyf Glanogwen.
- 02/12/1988 (Gwener): Bu farw Ronald Pardoe, cyn-brifathro Ysgol Dyffryn Ogwen, yn 78 oed, ac amlogsgwyd ei weddillion yn Langley, Canada.

I'w barhau

gair neu ddau

John Pritchard

BRON I GANRIF

Ar derfyn y Rhyfel Mawr, daeth yr ymladd i ben yn swyddogol ar yr unfed awr ar ddeg o'r unfed dydd ar ddeg o'r unfed mis ar ddeg. Ymhen dwy flynedd, bydd hynny ganrif union yn ôl, a chaiff y canmlwyddiant hwnnw sylw mawr pan ddaw.

Amser a ddengys pa ddigwyddiadau arbennig a drefnir i nodi'r canmlwyddiant. Ond mentraf ddweud y bydd dau beth yn gwneud i'r dathliadau fod yn llai effeithiol nag y gallent fod.

Y peth cyntaf yw'r holl sôn a fu am ryfel dros y blynyddoedd diwethaf. Bu cyfnod pan nad oedd fawr o sôn am erchyllterau dau Ryfel Byd. Roedd y dioddefaint yn rhy agos ac yn rhy ddiweddar o bosibl, a gwell gan bobl oedd peidio â sôn gormod amdano. Ond daeth tro ar fyd, ac ers blynyddoedd - wn i ddim yn union faint, ond yn sicr dros y chwarter canrif ddiwethaf - cafwyd sôn parhaus am ryfeloedd y ganrif ddiwethaf. Buom yn nodi'n ddi-baid wahanol gerrig milltir y ddau ryfel, gan gofio brwydrau a digwyddiadau 50, 60, 70, 80 a 90 mlynedd yn ôl. Ac er mor bwysig yw gwybod am y digwyddiadau hynny, mae modd bod yn rhy gyfarwydd â'r hanesion nes colli golwg ar erchyllter y cyfan.

A'r ail beth a fydd yn lleihau effaith y dathliadau yw'r ffaith ein bod yn dal i ryfela ac i ladd. Yn y blynyddoedd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, roedd yna gred ein bod yn cofio'n flynyddol yr adeg yma o'r flwyddyn er mwyn sicrhau na fyddem byth eto yn rhuthro i ryfel arall. Roedd gwledydd gwâr wedi dysgu'r wers greulon. Ac er i ni glywed am ryfeloedd ym mhellafoedd byd, roedd yna argyhoeddiad na fyddem yng ngwledydd Prydain a gweddill Ewrop yn dilyn y llwybr hwnnw eto. Ac am flynyddoedd, fe'n perswadiwyd mai'r unig beth yr oedd ein lluoedd arfog yn ei wneud mewn gwahanol rannau o'r byd oedd cadw heddwch a chynnal trefn.

Ond mae ein parodrwydd i fynd i ryfel mewn gwahanol rannau o'r byd dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf wedi tynnu oddi wrth rym y cofio. Ymhen dwy flynedd, oni allasai dathlu diwedd y Rhyfel Mawr fod yn llawer mwy effeithiol ac ystyrion pe byddai'r holl gofio wedi ein gwneud ni a'n harweinwyr yn gymdeithas lai parod i rhuthro i ryfel yn ein hoes ein hunain.

John Pritchard

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda ☎ 600853

Ysbyty

Croeso adref i Jean Hughes, 3 Talybont, yn dilyn llawdriniaeth i gael clun newydd yn Ysbyty Gwynedd ar ddechrau'r mis. Daliwch i wella Jean!

Diolch

Dymuna Alwena, 1 Lôn Ddŵr, Talybont a theulu'r diweddar Roy Moore, ddiolch o galon i bawb a fu mor garedig wrthynt yn ystod eu profedigaeth lem yn ddiweddar. Diolch yn fawr am y galwadau personol, galwadau ffôn, y cardiau niferus a'r rhoddion hael tuag at waith Tîm Achub Mynydd Dyffryn Ogwen. Diolch yn ogystal i'r holl bobl ddaeth i'r gwasanaeth yn yr amlogfa. Diolch yn fawr i chi i gyd.

Eglwys St Cross

Pererindod
Ar fore Sul, Hydref 30ain daeth deg ar hugain o aelodau

ynghyd yn Eglwys St Tegai, Llandygái ar ddechrau Pererindod i Dreffynnon a'r cyffiniau, plwyf ein cyn-ficer, y Parchedig Adrian Coleman. Cynhaliwyd gwasanaeth yn eglwys St James o dan arweinyddiaeth ein ficer, y Parchedig John Mathews, a thraddodwyd y bregeth gan y Parchedig Christina McRae.

Gorymdeithio i lawr yr allt i Ffynnon Gwenfrewi fu hanes y pererinion wedyn, lle cawsom ein bendithio â dŵr o'r ffynnon, cyn mynd yn ein blaenau i weld adfeilion Abaty Basingwerk, Greenfield, a chlywed hanes Thomas Pennant gan Edmond, un o'i ddisgynyddion.

Yn dilyn cinio blasus, aethom ymlaen i Frodordy Pantasaph, lle bu Judith Page yn esbonio Rheol Bywyd mynachod.

Daeth diwrnod braf, ond blinedig, i ben, a diolch i'r Parch. John Mathews a Mrs Sue Mathews am drefnu'r cyfan.

Te Nadolig

Cynhelir ein Te Nadolig ar y 19 o Dachwedd yn Ysgoldy Maes

y Groes o 2 i 4 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Capel Bethlehem

Oedfaon y Sul
Tachwedd 20: Parchg Cledwyn Williams; Tachwedd 27: Gweinidog; Rhagfyr 4: Parchg Ddr Elwyn Richards; Rhagfyr 11: Gweinidog; Rhagfyr 18: Oedfa Nadolig.
Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Ysbyty

Da clywed fod Miss Dilys Williams yn ôl ym Mhlas Ogwen wedi iddi orfod mynd i Ysbyty Gwynedd yn dilyn codwm. Mae eich ffrindiau yn y capel i gyd yn cofio atoch chi, Dilys.

Banc Bwyd

Diolch i bawb gyfrannodd fwydydd i'n hapêl dros yr Ŵyl Ddiolchgarwch. Roedd y ganolfan Banc Bwyd yng Nghaernarfon yn falch iawn o'u derbyn.

Bwrlwm Bethlehem
Mae'r aelodau wedi bod yn brysur yn paratoi bocsys 'sgidiau llawn anrhegion ar gyfer apêl 'Ymgych Plentyn y Nadolig' (Operation Christmas Child"). Diolch hefyd i blant yr Ysgol Sul am gyfrannu.
Dyma lun ohonynt gyda rhai o'r bocsys.



Ffair Nadolig

Cynhelir ein Ffair Nadolig eleni ar nos Fercher, 30 Tachwedd am 6.30 yn y Ffestri. Edrychwn ymlaen at groesawu pawb.

Ysgol Rhiwlas

Noson Sinema

Nos Wener, 14 Hydref, cynhaliwyd noson Sinema yn neuadd yr ysgol. Diolch i Gyfeillion Ysgol Rhiwlas am drefnu'r noson. Roedd y neuadd yn llawn a phawb yn mwynhau cŵn poeth, diod, popcorn a melysion wrth wyllo'r ffilm. Charlie a'r Ffatri Siocled oedd y ffilm, i gyd-fynd â'r gwaith mae'r disgyblion wedi bod yn ei wneud ar Roald Dahl a chanmlwyddiant ei eni. Hefyd, er mwyn dilyn thema'r ffilm, roedd gwobr arbennig, ar ffurf tocyn aur, wedi ei guddio gan y Cyfeillion mewn bar o siocled. Llongyfarchiadau mawr iawn i Aaron am ennill, a chwarae teg iddo am rannu ei wobwr gyda'i ffrindiau ar y noson.

Ymweliad Colin Diamond

Dydd Gwener, 21 Hydref, cafodd disgyblion yr Ysgol wledd wrth i Colin Diamond ymweld â'r ysgol i gynnal gweithdy drymio ac offer taro. Roedd atsain y samba i'w

glywed trwy'r pentref a phawb wedi cael diwrnod cerddorol gwerth chweil.

Disgo Calan Gaeaf

Roedd sain cerddoriaeth i'w glywed o dop y pentref nos Fawrth, 1 Tachwedd gan fod disgyblion Ysgol Rhiwlas yn brysur yn dawnsio ac yn mwynhau eu hunain yn y disgo Calan Gaeaf.

Ffair Lyfrau

Mae Ffair Lyfrau wedi bod yn cael ei chynnal yn neuadd yr ysgol rhwng 7 ac 11 Tachwedd. Diolch i bawb am bob cefnogaeth i'r digwyddiad. Roedd yn gyfle gwych i gychwyn meddwl am y Siopa Nadolig.

Nodyn i'r dyddiadur

Cynhelir Ffair Nadolig Ysgol Rhiwlas ar 24 Tachwedd am 5.30 yr hwyr. Cynhelir Cyngerddau Nadolig Ysgol Rhiwlas ar 6 a 7 Rhagfyr yn Neuadd yr Ysgol.



**CRWYDRO
ER BUDD**

yn cyflwyno taith
arbennig yn 2017

Rhyfeddodau Brasil, yr Ariannin a'r Wladfa Gymreig 8 – 23 Ebrill 2017

Taith ryfeddol yn ymweld â Rio de Janeiro, Rhaeadrau anferthol Iguazu, Rhewlif syfrdanol Perito Moreno, Bariloche yn yr Andes, Y Wladfa Gymreig gan ymweld ag Esquel, Trefelin. Croesi'r Paith i Drelew, Gaiman, Porth Madryn ble glaniodd y Mimosa, dinas hardd Buenos Aires a llawer mwy.
Cyfle i brofi asado gyda trigolion lleol.

**Cyfle unwaith mewn oes
- peidiwch â'i fethu!**

Am fwy o fanylion a ffurflen archebu,
Cysylltwch â Dafydd Owen
01286 881911 (dydd) 07795 485 081 (symudol)
ebost : crwydro@crwydro.com

www.crwydro.com

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech, Garnedd Lwyd
7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Clwb Llanllechid

Cynhaliwyd Clwb Llanllechid b'nawn Mercher Hydref 26 yn Festri Carmel. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Llywydd. Dymunwyd gwellhad buan i Gwenno sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Hefyd anfonwyd cofion at deulu y diweddar Mr Alun Hughes, Maes Coetmor yn eu profedigaeth. Roedd Mr Alun Hughes yn dad yng nghyfraith i Bryn, mab Rita. Mae Rita yn aelod selog o'r clwb. Yna croesawodd y llywydd ein gŵr gwadd Iwan Owen sydd yn swyddog Cefnogi Cymuned. Y mae'n byw yn Abergele ond yn gweithio yma ym Methesda yn swyddfa Siop Ogwen. Cawsom sgwrs ddiddorol a gwerthfawr iawn ganddo. Roedd yn ein cynghori sut i ddelio hefo pobl yn dod at y drws i werthu neu cynnig trwsio pethau nad oedd angen eu trwsio. Hefyd sut i ddelio efo pobl ddrwgdybus ar y ffon. Cawsom lawer iawn o gyngor ganddo a phawb wedi mwynhau yn arw. Rita a Medi oedd yn paratoi y te. Enillwyd y raffi gan Vera. Byddwn yn cyfarfod nesaf ar Dachwedd 23.

Gwellhad buan

Dymunwn yn dda i Jean Northam, 4 Llwyn Bedw wedi llawdriniaeth ar ei choes yn Ysbyty Whiston ddechrau mis Tachwedd.

Cydymdeimlad

Gyda sioc a braw y derbyniwyd y newyddion trist am farwolaeth sydyn ac annisgwyl Kevin Eirwyn Pritchard ac yntau'n 49 mlwydd oed. Ym Maesgeirchen yr oedd Kevin yn byw ond roedd yn ymwelydd cyson â chartref ei rieni, Eirwyn a Joan Pritchard, Bron Arfon, Rachub. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Eirwyn a Joan, Denise, ei chwaer, a Vicki, Mathew, James a Sean. Bu'r angladd yn yr Amlosgfa ac roedd y niferoedd a oedd yn bresennol yn dyst i boblogrwydd Kevin. Mae Eirwyn a Joan am ddiolch i bawb a ddangosodd unrhyw arwydd o gydymdeimlad atynt yn ystod eu tristwch, yn alwadau ffôn, cardiau a'r nifer fawr a alwodd yn y tŷ. Roedd gweld cymaint o bobl dros y cyfnod yn galonidd mawr iddynt. Maent hefyd am ddiolch i'r Parch. Idris Thomas ac i Dewi Davies am eu gwaith trylwyr.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Susan Evans, 4 Bron Arfon, a'i theulu (Bryn, Llinos, Erin a Sian) a Gillian, 46

Ffordd Tanybwlch, ar ôl colli eu tad Mr Alun Hughes, Maes Coetmor, tad a thaid annwyl iawn. Cynhaliwyd y cynhebrwng yn amlosgfa Bangor am hanner dydd Tachwedd 1af yng ngofal y Parch. Dafydd Coetmor Williams.

Ar 28 Hydref, yn dawel wedi salwch byr, bu farw Mr Raymond H. Tugwell, Ffordd Llanllechid, yn 67 mlwydd oed. Priod annwyl Mrs Ann Tugwell, tad Mel, Kel a Jenna, tad yng nghyfraith Nigel, Michael a David, a thaid Elliott, Anna, Lucy, Beca, Casi ac Elsi, a brawd i Val, Janice a Roy.

Cynhaliwyd ei angladd yng Ngharmel ddydd Iau, 3 Tachwedd, gyda thyrfa enfawr wedi dod ynghyd i ffarwelio â Raymond. Yn wir, roedd y capel dan ei sang. Gwasanaethwyd gan y Parch. John Pritchard a'r Parch. Dafydd Coetmor Williams. Cafwyd teyrngedau gan Elliott, Stella, Keith, Margaret a Martyn. Mrs Helen Williams oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

Ffair Llan

Roedd dipyn o gyffro ar strydoedd Rachub a Llanllechid nos Sadwrn olaf mis Hydref, gyda Ffair Llan a'i goleuadau yn denu pawb yno i wario. Roedd wynebau'r plant yn bictiwr wrth fwynhau y reids, ac ambell un yn cario pysgodyn aur ar ei ffordd adref. Mae achlysur blynyddol hapus, sy'n dod â phawb at ei gilydd i fwynhau.

Calan Gaeaf

Roedd 'na ambell wrach ac ysbryd ar hyd y lle 'ma nos calan gaeaf, a'r unig ffordd i gael eu gwared nhw oedd taflu llwyth o dda-da's atyn nhw. Roedd sawl plentyn yn edrych yn frawychus iawn, ac ambell i gartref wedi bod yn brysur yn addurno ar eu cyfer. Gobeithio na welwn ni'r bwci bôs am flwyddyn arall wir!

Babi newydd

Llongyfarchiadau mawr i Nerys a Kerran Wyn Jones 1 Llwyn Bedw ar enedigaeth eu mab bychan, Iolo Llyr. Mae'n siwr fod Cadi wrth ei bodd efo'i brawd bach newydd.

Pen-blwydd

Pen-blwydd hapus iawn i Elis Vaughan yn 6 oed ar Hydref 7fed. Gobeithio wnes di fwynhau neidio ar y castell neidio efo dy ffrindiau!

Diolch

Dymuna Mr a Mrs Eurwyn Pritchard a Denise ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt fel teulu pan gollwyd eu mab, Kevin, mor sydyn ac annisgwyl. Mae'r ardal wedi bod yn hael eu cydymdeimlad tuag atynt ac maent yn gwerthfawrogi hyn i gyd.

Priodas



Ar 10 Medi, yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon priodwyd Paul, mab Keith a Valerie Thomas (Tan y Garth) a Sian, merch Eifion ac Ann Hughes (Tŷ Mwyn). Pob dymuniad da i chi yn eich bywyd priodasol.

Diolch

Dymuna Paul a Sian ddiolch o galon i bawb am y llu o gardiau, anrhegion a dymuniadau da ar achlysur eu priodas.

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau
Tachwedd
20 Parchg Gwyndaf Jones.
27 Gweinidog.

Rhagfyr

4 Gweinidog (Oedfa Fedydd) am 3.15yp.
11 Canon Idris Thomas
18 Oedfa Nadolig am 4.00yp.
Oedfaon am 5.00yp oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul am 10.30 yb.
Clwb Dwylo Prysor, nos Wener am 6.30 yh.
Te Bach - dydd Llun, 21 Tachwedd.
2.30 - 4.00.yp
Te Bach - dydd Llun, 12 Rhagfyr.
2.30 - 4.00 yp.
Cofion cynnes a gwellhad i bawb sy'n sâl.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Ron Jones a'r teulu, Bron Arfon, yn eu profedigaeth o golli ewythr i Wendy yn yr Alban.

Hefyd, cydymdeimlwn â Siân, Llinos ac Erin Bryn a'r teulu yn ystâd Bron Arfon yn eu profedigaeth o golli taid, sef y diweddar Mr Alun Hughes, Maes Coetmor.

Bedydd

Gyda'n gweinidog yn gwasanaethu, bedyddiwyd Catrin Haf Jones, merch Danielle a Dylan Jones, Glan Ogwen, a hefyd Jac Jones, mab Karen a Peter Jones y Gerlan.

Ysgol Sul Carmel

Cawsom wasanaeth Diolchgarwch am

y Cynhaeaf hwyliog a bendithiol yng nghwmni'r plant a'r bobol ifanc yn ôl ein harfer yn ystod yr hydref. Diolch iddyn nhw i gyd am eu gwaith graenus a chanmoladwy. 'Roedd casgliad y Sul yn cael ei roi tuag at Gardiau Casglu'r Plant at y Genhadaeth Fyd Eang, sef £120.00. Diolch i aelodau, cyfeillion a rhieni am eu cefnogaeth i'r plant.



Aelodau Clwb Dwylo Prysur yn canu'n frwdfrydig.



Y plant lleiaf yn cymryd rhan yn ystod y gwasanaeth.

CHWILAIR

Yn y chwilair y mis yma mae enw DEUDDEG O DDYFEISWYR CYMREIG. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW erbyn Tachwedd 30. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r nifer agosaf fydd yn cael y wobr.

Roedd y daith o amgylch Lerpwl yn un anodd iawn i'r rhan fwyaf ohonoch yn ôl pob golwg, gan mai dim ond dwy o ymgeiswyr y chwilair a gafodd hyd i'r atebion cywir. Gobeithio cewch well hwyl gydag enwau dyfeiswyr enwog a'i gwreiddiau yng Nghymru. **Dyma atebion Hydref:-** Clos Llanrwst; Clos Penarth; Eden; Ffordd Bala; Ffordd Cadogan; Ffrancon Dreif; Heol Garth; Lon Dinas; Parc Aber; Rhodfa Madryn; Stryd Harlech; Stryd Rhiwlas. **Dyma'r rhai a gafodd yr atebion cywir:-** Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Myfanwy Jones, Gaerwen.

Clwb Hanes Rachub

Croesawyd Mr Wyn Roberts (Tanybwlch) i'n plith i sgwrsio am hen arferion amaethyddol yr ardal. Mae cof Mr Roberts am enwau, digwyddiadau, termau, cerddi a hanesion o bob math yn anhygoel, ac mae ei wybodaeth o ddaearyddiaeth ein hardal yn arbennig iawn, gan iddo allu enwi nentydd, cymoedd, brynau, mynyddoedd a ffermydd di-ri heb feddwl ddwywaith! Clywsom am drefn flynyddol y ffermwr defaid ac am hen arferion symud defaid i lefydd fel Eglwysbach a Chlynnog. Clywsom am ffermwy

yn gorfod parchu'r Sul, ac yn peidio cychwyn am y mynyddoedd nes oedd hi wedi troi hanner nos, ac felly'n fore Llun! Clywsom am arferion a chastiau'r llwynog, ac am yr enwau oedd ar nodau clustiau'r defaid, fel 'bwlch tri thoriad', 'fforch', 'cyllelliad', 'bwlch plyg' ac ati. Trafodwyd diwrnod cneifio, cinio cneifio, trochi defaid, yn ogystal â gwerthu defaid mewn ffeiriau yn Llan, Bethesda, Talybont ac Aber! Roedd 'Y Sê' yn rhywbeth go arbennig yn yr ardal, sef darn o dir yn Llan lle cynhaliwyd

math o arwerthiant defaid colledig! Defaid oedd y rhain oedd wedi crwydro o ardaloedd eraill, neu ddefaid heb eu marcio, 'ŵyn gwynion'. Y Cyngor Plwy oedd yn cynnal y 'Sê', a'r Bugail Mynydd fyddai'n derbyn yr arian. Erbyn diwedd y cyfarfod, roedd cant a mil o hanesion am droeon trwstan wedi llifo allan, a'r gynulleidfa'n mwynhau pob eiliad. Diolch yn fawr unwaith eto Mr Roberts! Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, Tachwedd 30, 'Ar y Bysus' yng nghwmni'r Dr J. Elwyn Hughes.

Llais Ogwan

Cefnogwch eich busnesau lleol!

A	A	W	R	O	N	A	L	D	M	L	O	C	K	L	E	Y	F	H	R
I	N	O	N	N	A	C	S	E	H	G	U	H	A	H	T	R	A	M	E
J	E	D	W	A	R	D	G	E	O	R	G	E	B	O	W	E	N	W	L
C	M	S	E	H	G	U	H	D	R	A	W	D	E	D	I	V	A	D	B
V	W	I	L	L	I	A	M	J	O	N	E	S	T	B	H	L	X	J	U
I	S	V	S	H	E	I	M	G	V	H	M	S	D	W	T	H	U	Z	M
X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	Q	O	U	S	E	O	F	N	R	P
Y	Q	Z	G	R	H	C	U	M	W	R	N	O	R	Y	R	I	O	A	S
Z	U	T	F	D	X	U	P	W	F	R	H	D	C	Q	H	W	S	E	H
O	Y	E	E	G	E	O	M	L	H	E	A	P	T	T	C	B	H	B	C
U	U	J	P	L	T	M	L	I	V	V	V	D	C	B	B	F	P	R	F
O	G	J	V	I	I	I	R	R	I	X	I	M	H	T	T	O	E	S	K
O	P	W	R	C	B	M	K	E	C	B	O	R	C	X	V	R	S	Y	H
S	T	M	R	E	F	Y	S	J	D	Z	H	B	C	W	O	S	O	C	R
D	O	N	A	L	D	W	A	T	T	S	D	A	V	I	E	S	J	A	I
B	E	R	N	A	R	D	K	N	I	G	H	T	X	N	I	L	N	N	J
M	B	W	T	E	X	M	D	X	K	F	U	P	C	Q	Y	O	A	I	L
F	E	V	O	R	G	T	R	E	B	O	R	M	A	I	L	L	I	W	E
R	T	S	O	R	F	M	A	I	L	L	I	W	Z	Q	R	O	R	C	T
D	G	W	S	L	Z	E	B	E	A	J	K	J	C	L	N	L	B	R	V

Enillydd Medi oedd:- Myfanwy Jones, Tan Rhiw, Stryd Hiracl, Gaerwen, Ynys Môn, LL60 6BL

Caerhun a Glasinfryn

Marred Glyn Jones, 2 Stryd Fawr,
Glasinfryn, Bangor, LL57 4UP
01248 351067
marred567@btinternet.com

Sefydliad y Merched

Cyfarfod Medi

Cawsom ddatlu pen-blwydd y Sefydliad yn 40 oed yn y Straits, Porthaethwy nos Fercher, 14eg o Fedi. Daeth nifer ohonom at ein gilydd i fwynhau pryd wedi ei drefnu gan Mair. Dwy o'r aelodau gwreiddiol yw Mrs Muriel Pritchard a'i merch Mrs Mair Griffiths. Mae'r ddwy wedi bod yn weithgar a ffyddlon i'r sefydliad ers 40 mlynedd. Piti na chawsom gwmpeini Mrs Pritchard ar y noson dathlu ond ar hyn o bryd mae'n gaeth i'w thŷ oherwydd problemau gyda'i llygaid. Yr ydym yn cofio ati yn annwyl iawn ac yn anfon ein dymuniadau gorau ati, gan ddiolch iddi am ei chyfraniad a'i ffyddlondeb. Yr un yw'r diolch i Mair sydd yn barod i drefnu ac edrych ar ein holau ar bob achlysur. Diolch, Mair, am dy gyfeillgarwch gwerthfawr.

Cyfarfod Hydref

Bu cyfarfod y sefydliad fel arfer yn y Ganolfan nos Fercher 12fed o Hydref. Llywydd y noson oedd Dr Ann Ilsley a darllenwyd y cofnodion gan Ingrid Farrer. Roeddem yn falch o weld Elizabeth Evans yn gwella ar ôl triniaeth i'w llaw. Cawsom ein diddanu trwy luniau o hen blastai hanesyddol Gwynedd gan wraig ddifyr iawn sef Marian Gwynedd. Yn enedigol o Sir Fôn bu Marian yn gweithio am flynyddoedd yng Nghastell Penrhyn. Dipyn o hen hanes y plastai a

gawsom - rhai adnabyddus iawn i ni a rhai llai adnabyddus. Mae 350 ohonynt yng Nghymru ac mae hanes diddorol yn perthyn i bob un. Heb fanylu ar yr hanesion yma, wele restr fer o'r plastai a soniwyd amdanynt gan Marian sef Cochwillan, Penrhyn, Vaynol, Glynllifon, Nanhoron, Castell Gwydir, Castell y Waun (Chirk) a Bryn Bras. Pob un yn unigryw. Roedd yn noson ddiddorol dros ben a mwynhawyd hanes a chefnidir bob plas. Diolch i Mair a Glenys am y baned ac i Kath am y raffl. Diolchwyd i Marian gan Marian!

Bingo

Mae'r sesiynau Bingo er budd elusennau lleol a gynhelir yn y Ganolfan yng Nglasinfryn yn mynd o nerth i nerth gyda chefnogaeth dda yn lleol. Mi wnaeth y sesiwn ym mis Medi godi cyfanswm o £93 a'r sesiwn ym mis Hydref godi cyfanswm o £157 at elusen Awyr Las, Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Diolch i Anne a Mary a phawb sy'n ymwneud â'r trefnu a phawb sy'n dod i gefnogi. Bydd y sesiwn Bingo nesaf yn hel arian ar gyfer Ward y Plant Ysbyty Gwynedd ac yn cael ei gynnal nos Wener, 9 Rhagfyr, gan ddechrau am 7.00yh, ac mi fydd lluniaeth ysgafn ar gael. Diolch yn fawr i bawb am eu rhoddion hael a'u cefnogaeth.


Coelcerth Gymunedol

Cynhaliwyd Coelcerth Gymunedol yng Nglasinfryn ar Noson Tân Gwyllt. Daeth criw da at ei gilydd ar waetha'r oerfel gan fwynhau'r cawl a'r rholiau sosej blasus! Diolch o galon i bawb fu'n brysur gyda'r trefniadau, ac a fu wrthi'n ddygn yn adeiladu'r goelcerth ac yn paratoi'r bwyd a'r diod. Mae'n fwriad trefnu digwyddiadau cymdeithasol yn gyson yn y pentref yn y dyfodol.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Wedi'r seibiant yn ystod etholiad arweinydd Plaid Lafur Prydain, cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yng Nghanolfan Cefnfaes ar ddechrau mis Hydref. Ynddo cyflwynwyd adroddiadau am dri mis e.e. cynllun Llywodraeth Cymru i gael llawer iawn mwy o brentisiaethau a thai fforddiadwy, cynllun Cyngor Gwynedd i gau holl llyfrgelloedd Dyffryn Peris, a chynllun Cyngor Bethesda i gael lloches bws ger siop Spar (wedi i'r Cynghorydd Walter Williams wthio amdano). Hefyd, cafwyd adroddiadau gan Derek Vaughan ASE am y gwelliannau sy'n dal i ddod o Ewrop i Brydain, er bod yr etholwyr wedi

pleidleisio gyda mwyafrif bychain i adael yr Undeb Ewropeaidd. Roedd yn dda glywed bod y nifer o aelodau yn y gangen wedi cynyddu tua 50% ers y cyfarfod blynyddol, gyda'r aelodau newydd ym mhob ardal. Yn ogystal â hyn, cafwyd trafodaeth ddiddorol am fewnfudo. Ar ddiwedd y mis, cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru yn y Rhyl, gydag areithiau gan David Hanson AS a Joe Wilson cyn-ASE. Cafwyd digon o gyfle i ofyn cwestiynau a mynegi barn. Cynhelir Ffair Nadolig y gangen gyda Siôn Corn, stondinau a raffl yn ystafell bar Neuadd Ogwen fore Sadwrn, 26 Tachwedd.



Collwyd yn y Rhyfel Mawr

Ganrif i'r mis hwn

ER COF

Am

J. Pritchard

Milwr Cyffredin 15689

Catrawd y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig

A fu farw

2 - 11 - 1916

Mab Owen Pritchard 2 Penybryn Place

Bethesda

(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon)

Y Rhyfel Byd Cyntaf

Mis Mehefin diwethaf roeddwn wedi enwi rhai o fechgyn yr ardal a gollwyd yn y Rhyfel Mawr, yn eu mysg roedd enw Richard Thomas Price, a fu farw yn 30 oed. Ddechrau Gorffennaf derbynaias lythyr oddi wrth Mrs Donna Coleby, o Preston, yn sôn am dano. Bûm mewn cysylltiad â hi ychydig wythnosau yn ôl yn gofyn a fyddai yn fodlon i mi anfon y llythyr i *Llais Ogwan*, gan fy mod yn meddwl y byddai darllenwyr y *Llais* a diddordeb yn ei ddarllen. Dyma'r ateb a gefais ganddi. 'Mae croeso i chwi roi y llythyr yn rhifyn Hydref o *Llais Ogwan*. Mi fyddai yn cael pleser mawr hefo'r *Llais* - ei ddarllen o glawr i glawr, a chael y croesair yn gywir ambell dro! Cofion gorau, Donna'.

'Annwyl Mr Lomozik. Diddorol iawn gweld enw Richard Thomas Price - "Collwyd yn y Rhyfel Mawr 27-6-1916" yn *Llais Ogwan*. 'Roedd Richard Thomas Price yn frawd i fy nain Gerlan - dim o'i hanes yn y teulu - neb byth yn sôn amdano, dim ond un llun, a nain wedi ysgrifennu "Richard Thomas Price Sapper Canadian Engineers Killed in action June 27th 1916 buried somewhere in Belgium. My only brother" ar gefn y llun. Trwy wneud ymchwil teulu fe gefais ei hanes wedi ymuno â'r Canadian Tunnelling Engineers ac wedi ei ladd mewn llai na blwyddyn ar ôl ymuno â'r fyddin, a bedd iddo yn Railway Dugout Burial ground yn Belgium a geiriau Cymraeg "Hun mewn Hedd" ar ei garreg fedd.

Yn 2013 aeth Anne fy chwaer a'i gŵr i'r fynwent yng Ngwlad Belg i weld ei fedd. Rhyfedd meddwl ar ôl can mlynedd fod ei enw yn *Llais Ogwan*, yn ôl ym Methesda!! Llawer o ddiolch, Donna (Coleby)'.

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan ☎ 601583

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gyda Keith a Vera Hughes, Ciltrefnus, yn eu profedigaeth o golli cefnder Keith, sef y diweddar Jim Griffith, oedd yn byw yn Ynys Môn. Ar un adeg bu Jim yn byw yn Gernant, Braichmelyn, ac yn y Gerlan.

Priodas

Llongyfarchiadau i Donna a Mark Thomas, Stryd Goronwy, ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Cynhaliwyd y briodas yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis. Fis ynghynt y bu i chwaer Donna, sef Lisa, briodi

Ceisiadau am Nawdd Ariannol

Hysbysiad Pwysig

Mae Cyngor Cymuned Llandygái
yn gwahodd ceisiadau am nawdd
ariannol gan
Gymdeithasau/Mudiadau lleol.

Anfonwch eich cais at y Clerc cyn
31 Rhagfyr 2016.

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Donna Watts,
Cyngor Cymuned Llandygái,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131

Ebost: cynqorllandygai@ogwen.org

Ceisiadau am Nawdd Ariannol

Hysbysiad Pwysig

Mae Cyngor Cymuned Bethesda
yn gwahodd ceisiadau am nawdd
ariannol gan
Gymdeithasau/Mudiadau lleol.

Os ydych am wneud cais anfonwch
eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf
ynghyd â manylion eich banc at y
Clerc cyn **31 Rhagfyr 2016**.

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Donna Watts,
Cyngor Cymuned Bethesda,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131

Ebost: cynqorbethesda@ogwen.org

gydag Ian Williams, a hynny yn Neuadd PJ ym Mangor. Maent hwy yn byw yng Nghaernarfon. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ohonoch ar eich priodasau, a phob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

Cartref newydd

Rydym yn croesawu Nia Thomas a'i mab, Osian, i'w cartref newydd yng Nghiltrefnus. Mae'r ddau wedi symud o Fro Syr Ifor yn Nhregarth yn ôl i'r Gerlan, lle mae eu teulu agos yn byw. Rydym yn siwr fod pawb yn falch o'ch cael yn ôl adref.

Gadael y pentref

Mae Jackie Eardley, Ciltrefnus, wedi symud ar draws y dyffryn i Dregarth. Dymunwn y gorau i ti yn dy gartref newydd ym Mro Syr Ifor, Jackie.

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gyda Bethan Jones a Dafydd Môn Hughes, Stryd y Ffynnon, yn eu profedigaeth o golli perthynas, y diweddar Alun Hughes, oedd yn trigo ym Maes Coetmor.

Gadael y Gerlan

Mae Iwan Charles, Mari Emlyn, a'u mab, Arthur, wedi symud o Stryd Hir i'w cartref newydd yn Ffordd Carneddi. Dymunwn bob hwyl ichi fel teulu.

Y Caban

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Y Caban nos
Fercher, 30ain o Dachwedd am 7.00 p.m.
Croeso cynnes i bawb. Mae gwir angen
aelodau newydd i ymuno gyda ni.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**

Neville Hughes 600853

(nev_hughes@btinternet.com)

山田派系東流修交会空手道

KARATE-DO

Y FFRDD WAGLAW

KARATE SHUKOKAI BETHESDA

Yn Plas Ffrancon

Dwy wers gynta am ddim

• HUNAN AMDDIFFYN • HUNAN RYDER •

• FFRTHWYDD • DISGYBLAETH • PARCH •

SHITORYU SHUKOKAI KARATE-DO

TRADDODIADOL

- * £35 y mis disgownt teuluol
- * Dim Cyfandeb, Dim Cyfeirnod Debyd
- * Strwythur Graddio Traddodiadol
- * Hyfforddwr 4ydd Dan ac Aelod o Dim Enillodd Gwpan y Bwd 2007
- * Pennaeth Soke Yamada Sensei
- 10fed Dan o Japan

NOS FAWRTH A NOS IAU

7 TAN 8 O'R GLOCH I BLANT HYD AT 12 OED

8-9 O'R GLOCH I BLANT DROS 13 OED

AC OEDOLION

I SICRHAU EICH LLE YN Y CILWB:

FFON: 07595 361624

Ehost: shukokaiwales@icloud.com

Y WE: www.shukokai-wales.com

hoffs ai ar
facebook

facebook.com/shukokainorthwales

Llythyrau

6 Hendyrpeg
Tregarth
Bethesda
Gwynedd
LL57 4NN

Ffôn: 01248602140/07810476407
E-bost: jan.jones6@hotmail.co.uk

Tachwedd 1af 2016

Annwyl Olygydd,
Mae'n bur debyg bod rhai o'ch
darllenwyr yn mynychu'r Clwb Celf
a Chrefft yn Caban, Brynrefail ar fore
dydd Mawrth. Mae hwn yn Glwb hynod
lwyddiannus a chymdeithasol, ac yn wir,
yn rhan o'r wythnos y mae'r aelodau'n
edrych ymlaen ato'n eiddgar.

Yn dilyn llwyddiant Ffair Grefftau Nadolig a gynhaliwyd yn Caban y llynedd, mae rhai o'r aelodau'n trefnu Ffair Grefftau eto eleni, am ddeuddydd y tro hwn. Bydd y Ffair yn cael ei chynnal yn Caban, Brynrefail, ddydd Sadwrn, Tachwedd 19eg, a dydd Sul, Tachwedd 20fed, rhwng 10 y bore a 4 y prynhawn. Bydd cyfle i brynu anrhegion unigryw o safon uchel gan nifer o grefftwyr lleol, gan gynnwys gemwaith, cardiau, darnau o waith celf, a thecstilau. Bydd cyfle hefyd, wrth gwrs, i gael paned a chacen yng nghaffi Caban fydd ar agor gydol y ddau ddiwrnod.

Bydd mynediad i'r Ffair yn rhad ac am ddim, a bydd croeso i bob un wnaiff alw heibio. Dewch yn llw i gefnogi!

Gyda diolch,
Janice Jones

Bryn Dinas
5 Ffordd Coedmor
Bethesda
Gwynedd
LL57 3DP

E-bost: sianmj78@gmail.com
Annwyl Ddarllenwyr,

Rwyf yn fyfyrwraig yn fy mlwyddyn olaf ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac rwyf yn ymchwilio i hanes bywyd a gwaith Syr Idris Foster. A ydych chi'n ei gofio, neu a oeddech chi'n ei adnabod? Byddaf yn ddiolchgar iawn o dderbyn unrhyw wybodaeth neu atgofion gan bobl yr ardal a thu hwnt amdano.

Mae croeso ichi gysylltu â mi drwy lythyr neu drwy e-bost.

Diolch o galon,
Siân Mererid Jones

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



19 Tachwedd: Cefnfaes – Neuadd Talgai.
26 Tachwedd: Cefnfaes – Plaid Cymru
26 Tachwedd: Neuadd Ogwen – Plaid Lafur (Ffair Nadolig)
03 Rhagfyr: Cefnfaes – Capel Jerusalem.

2017
01 Ebrill: Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir.
28 Hydref: Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir.

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarw ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Cyfarchion Nadolig

Ni fyddwn yn anfon cardiau Nadolig na Blwyddyn Newydd eleni, ond trwy Llais Ogwan, fe hoffem anfon cyfarchion at ein teuluoedd a'n ffrindiau, ymhell ac agos.
Meddwl amdanynt i gyd a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb:
Mrs Myfanwy Jones (Anti Myf), Gwernydd
Mrs Nance Owen, 8 Rhes William, Bethesda

CYNGOR CYMUNED BETHESDA

*"Gwerth cymuned yw'n credo
A'n braint yw gwarchod ein bro"*
Cystadleuaeth Addurno Ffenest Siop Nadolig 2016
Gwobr £50 a Tharian i'w dal am flwyddyn

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
TACHWEDD 22 a 29
RHAGFYR 13 a 20
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

Carmel Llanllechid
GWASANAETH NADOLIG
Yng nghwmni'r Plant a'r Bobol Ifanc
Sul, 18 Rhagfyr
Am 4.00 o'r gloch
Croeso i bawb

Neuadd Ogwen
FFAIR NADOLIG Y Blaidd Lafur
efo Siôn Corn
Sadwrn, 26 Tachwedd
10.00 tan 12.00 Mynediad £1.00

Ysgoldy Maes y Groes
Talybont
TE NADOLIG
Sadwrn, 19 Tachwedd
2.00 tan 4.00

Capel Bethlehem Talybont
FFAIR NADOLIG
yn y Ffestri
Nos Fercher, 30 Tachwedd
Am 6.30yh
Mynediad £1.00

Caban Gerlan
CYFARFOD BLYNYDDOL
yn y Caban
Nos Fercher 30 Tachwedd
7 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

Eglwys Annibynnol Bethlehem Talybont
GWASANAETH NADOLIG
yng nghwmni plant yr Ysgol Sul
Dydd Sul, 18 Rhagfyr
am 2.00 o'r gloch
Gwneir Casgliad at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN
Nos Lun, 12 Rhagfyr 2016
am 7.00 o'r gloch
yn Ffestri Capel Jerusalem
Dilwyn Pritchard
Llechid Celts, a mwy ...
£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau

CANOLFAN CEFNFAES
Bore Coffi, Plaid Cymru
Sadwrn, 26 Tachwedd
10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

CANOLFAN CEFNFAES
Bore Coffi, Capel Jerusalem
Sadwrn, 3 Rhagfyr
10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

CANOLFAN CEFNFAES
Bore Coffi, Neuadd Talgai
Sadwrn, 19 Tachwedd
10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

Te Bach
Ffestri Carmel, Llanllechid
Pnawn Llun, 21 Tachwedd
2.30 – 4.00
Croeso i bawb

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái
☎ 600744

Dosbarthu'r Llais
Mae Helen Berry yn dymuno rhoi'r gorau i'r gwaith o ddosbarthu a gwerthu Llais Ogwan ar ddiwedd y flwyddyn hon, a hynny wedi tair blynedd o gyfraniad gwirfoddol. Rydym fel Pwyllgor Llais Ogwan yn ddiolchgar iawn iddi am ei gwasanaeth yn cynorthwyo'r papur trwy ei ddosbarthu i werthwyr a gwerthu copïau ei hun. Byddwn angen dau wirfoddolwr ym Mynydd Llandygái ar gyfer dechrau'r flwyddyn newydd, ac os ydych yn dymuno helpu eich papur bro, a fydddech mor garedig â ffonio Godfrey Northam ar 600872.

Y Clwb Pêl-droed
Canlyniadau:
Hydref 8
Meliden 3 - Mynydd Ll. 2
Goliau Kevin a Matthew Smith

Hydref 15
Mynydd Ll. 3 - Llandudno
Albion 2
Goliau: Jamie Whitmore, Ian Owen a Matthew Smith

Hydref 22
Mynydd Ll. 2 - Llanllyfni 3
Goliau: Ben Parker a Jamie Whitmore

Diwrnod Ffair Llan
Mynydd Ll. 1 - Llandudno
Albion 2
Gôl gan Gavin Owen

Gwella
Bu Mrs Alison Williams yn Ysbyty Gwynedd am lawdriniaeth. Da ei gweld yn gwella. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau atoch. Cymerwch ofal!

Diolch
Dymuna Alison Williams, Tŷ Capel Amana ddiolch i bawb am y cardiau, y blodau a'r galwadau ffôn tra bu yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod

gartref. Diolch am eich caredigrwydd!

Pen-blwydd
Bu Mrs Barbara Roberts yn dathlu pen-blwydd arbennig. Llongyfarchiadau, a chofion atoch gan obeithio eich bod wedi cael dathliad hapus.

Profedigaeth
Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Mrs Jane Couch yn eu profedigaeth sydyn.

Cydymdeimlwn â Mr Glyn Griffith, Wyn a Carol a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mrs Enid Griffith, gwraig, mam, nain a hen nain annwyl. Roedd yn wraig dawel ac fe'i ganwyd yn y Mynydd. Bydd colled fawr ar ei hôl. Rydym yn meddwl amdanoch fel teulu.

Bingo
Cynhelir Bingo Nadolig y Clwb Ieuenctid ar nos Fawrth, 29 Tachwedd am 7 o'r gloch. Edrychwn ymlaen at eich cefnogaeth.

Eglwys St Ann a St Mair
Tachwedd
20 Boreol Weddi
27 Cymun Bendigaidd

Rhagfyr
4 Gwasanaeth Teuluol
11 Cymun Bendigaidd
18 Gwasanaeth "Naw Llith a Charolau".

Dechreuir gwasanaethau boreol am 9.45y.b. Estynnwn groeso cynnes i chwi oll ymuno â ni yn ein gwasanaethau.

Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun gartref, cysylltwch ag un o'r wardeiniaid - Peter Price (601199) neu Janet Williams (600434).

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Jane Couch, 'The Milton', St Ann (yn ddiweddar yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun). Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd.

Trysor o Lyfr

Mae cyfrol wedi ei chyhoeddi'n ddiweddar a ddylai fod o ddiddordeb i nifer dda o drigolion Dyffryn Ogwen ac ystyried ein bod yn byw yng nghysgod y Carneddau a bod y Glyderau a Thryfan yng nghyffiniau ein bro. Y gyfrol dan sylw ydi *Copaon Cymru* dan olygyddiaeth Eryl Owain, gydag Aneurin Phillips yn olygydd ffotograffau, - casgliad o deithiau (48 i gyd) i gopaon prif fynyddoedd Cymru, gyda lluniau godidog yn darlunio hyfrydwch tirwedd mynydd-dir ein gwlad. Mae pob pennod yn cynnwys manylion am y copaon a'r llwybr penodol, a disgrifiad cyfoethog o'r daith. Rheswm arall dros inni brynu'r gyfrol hon ydi fod Siân Shakerspear, sy'n byw ym Methesda, wedi

cyfrannu i'r gyfrol. Mae ganddi ddisgrifiadau o ddwy daith - 'Y Carneddau o Fethesda' a 'Y Carneddau o Abergwynnwg' - ac mae hi'n cyflwyno gwybodaeth am wahanol agweddau ar yr hanes a'r diwylliant sy'n perthyn i'r llechweddau. Gareth Wyn Griffiths ydi awdur 'Y Carneddau o Gwm Eigiau', Iola Roberts ydi awdur 'Y Garn ac Elidir Fawr' a 'Pedol Marchlyn', a'r golygydd ei hun yw awdur y disgrifiadau eraill sy'n lleol i ni - 'Y Carneddau o Lyn Ogwen', 'Tryfan' a 'Glyder Fawr a Glyder Fach'. Clwb Mynydda Cymru, y gymdeithas Gymraeg i gerddwyr mynyddoedd, sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r gyfrol efo Gwasg Carreg Gwalch. Gallwch archebu'r gyfrol yn Siop Ogwen. Y pris ydi £15.

Cyw yn dod â swyn y Nadolig i Fethesda

Mae Cyw a'i ffrindiau yn dod i'r ardal cyn hir yn rhan o daith i ddymuno Nadolig Llawen i blant ar hyd a lled Cymru.

Bydd rhai o gyflwynwyr a chymeriadau hoffus S4C - Huw, Catrin, Dona Direidi, Seren, Lobs ac, wrth gwrs, Cyw ei hun - yn dod i Fethesda ar ddydd Sadwrn a Sul, 17 a 18 Rhagfyr ac maen nhw'n eich gwahodd chi i ymuno â nhw yn yr hwyl.

Bydd sioeau yn cael eu cynnal yn Neuadd Ogwen ar benwythnos yr 17 a 18 o Ragfyr. Mae tocynnau ar gael ar gyfer sioeau am 3.45 a 6:00 y prynhawn ar ddydd Sadwrn, a 1:45 a 3:45 y prynhawn ar ddydd Sul.

Mae'n bosibl archebu ar gyfer grwpiau hefyd, os ydych chi'n dymuno trefnu trip ar gyfer eich ysgol, mudiad meithrin neu grŵp chwarae. Mae croeso mawr i bawb yn Sioe Cyw!

Mae'r tocynnau ar gael i'w prynu ar-lein. Ewch i wefan s4c.cymru/cyw i ddewis pa sioe yr hoffwch ei mynychu ac i brynu eich tocy.

Mae ffi bwcio o £1.00 ar bob archeb ac os oes angen help arnoch chi wrth archebu ar-lein, mae Gwifren Gwylwyr S4C ar gael i'ch helpu, ar 0370 600 4141.

Mae Sioe Nadolig Cyw yn boblogaidd iawn pob blwyddyn a'r tocynnau yn gwerthu'n gyflym, felly peidiwch ag oedi!



Côr y Penrhyn

Perfformiadau lu

Dyma restr o berfformiadau'r côr ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr.
Tachwedd 3ydd – Henllys
Tachwedd 18fed – Eisteddfod Dyffryn Ogwen
Rhagfyr 1af – Henllys
Rhagfyr 12fed – Cadeirlan Bangor
Rhagfyr 18fed – Capel Jerusalem, Bethesda
Rhagfyr 19eg – Tesco, Bangor, canu carolau gyda'r elw yn mynd at achosion da

Fel y gwelir o'r rhestr uchod mae'r côr yn brys iawn ac yn cynnal sawl perfformiad i gefnogi mudiadau ac achosion lleol. Byddwn yn cymryd rhan yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen fel arfer ac yn perfformio yng Nghapel Jerusalem yng nghyngerdd Nadolig y capel. Ar ben hynny mae'r côr yn canu yng Nghadeirlan Bangor ac yn canu y tu allan i Siop Tesco, Bangor i godi arian at achosion da.

Henllys

Yn ein cyngerdd yn ystod mis Tachwedd cymerodd un o'n haelodau ieuengaf, sef

Caleb Rhys, yr awenau mewn tair cân gan ddangos dawn anghyffredin i arwain yn sensitif ac yn ddeinamig. Mae Caleb wrth gwrs yn un o gyn-ddisgyblion Owain Arwel ac ar ei ail flwyddyn yn astudio am radd mewn cerdd ym Mhrifysgol Bangor. Yn ogystal ag arwain canodd Caleb unawd a bu'n rhan o ddeuawd gydag Elfyn Bullock yn 'Rhyfelgan y Weriniaeth'. Mae'r gŵr ifanc hwn bellach yn aelod allweddol o Gôr y Penrhyn ac mae'n gaffaeliad mawr i adran y Bas 1af.

Pedwar aelod arall a fu'n perfformio mewn unawdau a deuawdau oedd Ray Roberts, Hywel Thomas a Tom Williams. Mae Tom erbyn hyn yn serennu ymhob perfformiad o 'Moliannwn,' cân a gyfansoddwyd gan Benjamin Thomas (Ben Jeri) ar dôn Americanaidd.

Dysgu darnau newydd

Ar hyn o bryd rydym ynghanol dysgu darn newydd i ni o'r enw 'Heriwn, Wynebwn y Wawr' gan Gareth Glyn ac Eleri Cwyfan. Mae hwn yn ddarn heriol a chyffrous ac

mae'n sicr o fod yn rhan allweddol o raglen y côr mewn unrhyw gyngerdd yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen at roi perfformiad cyntaf y côr o'r cyfansoddiad hwn yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ar Dachwedd 18.

Band y Black Dyke

Fel y cyhoeddwyd yn rhifyn Hydref o Llais Ogwan mae'r trefniadau i ganu gyda band

pres byd-enwog y Black Dyke o Swydd Efrog yn mynd yn eu blaenau'n dda. Bydd y band poblogaidd a dawnus hwnnw yn perfformio gyda ni yn Venue Cymru, Llandudno ar 17 Mehefin ac edrychwn ymlaen at glywed eu cyflwyniadau cyffrous a bywiog unwaith eto. Gwylwch am y tocynnau pan fyddant ar gael oherwydd gallwch fod yn sicr y bydd cip neu werthu brwd amyn nhw.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williams@parliament.uk

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**

Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Gareth Hughes o adran yr ail denoriaid.

- 1. Be' ydy dy enw llawn?** Gareth Hughes.
- 2. Oed?** 81.
- 3. Gwaith?** Wedi ymddeol.
- 4. Lle wyt ti'n byw?** Llanllechid.
- 5. Un o le wyt ti'n wreiddiol?** O'r Gerlan.
- 6. Pa dri pheth fuasai'n dy ddisgrifio orau?** Tawel, hoffi cwmni a gofalus efo arian.
- 7. Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Dwi'n aelod o'r côr ers 1970.
- 8. Pa lais wyt ti?** Ail denor rŵan ond wedi bod yn canu tenor cyntaf am flynyddoedd.
- 9. Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Cael fy mherswadio gan Nansi, fy niweddar wraig, i ymuno.
- 10. Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y**

côr? 'Pan ddaw yfory' ac 'Arwelfa'.

11. Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?

Y diweddar Richie Thomas, Penmachno, oedd fy hoff ganwr – tenor mwyn!

12. Beth ydy dy farn di am ganu pop?

Does gen i fawr i'w ddweud wrth ganu pop o unrhyw fath a dweud y gwir. Canu traddodiadol a chlasurol ydy fy ffefrynnau i.

13. Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?

Dw i wedi mwynhau pob taith efo'r côr ond y rhai sy'n aros fwyaf clir yn y cof ydy'r teithiau i'r Almaen. Mi wnaethon ni ffrindiau da â phobl y wlad honno. Mae bod yn aelod o'r côr yn rhoi profiadau i'w aelodau na fyddem yn eu cael fel arall.

14. Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?

Dw i'n mwynhau canu efo Hogia'r Bonc ac yn hoff iawn o wylïo gêm o rygbi.



15. Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?

Mi soniais uchod am yr Almaen, a chymaint o ffrindiau wnaethon ni yno. Felly, mi faswn i'n hoffi'n fawr petai'r côr yn gallu trefnu i fynd yn ôl yno. Mi fyddai cael cyfle i ymweld eto â'r mannau tlws a diddorol sydd yno a chael cwrdd â hen ffrindiau yn fendigedig.

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth
☎ 601544

Eglwys y Santes Fair
Gwasanaethau
Tachwedd
20 Boreol Weddi 9.30yb
27 Cymun Bendigaid 9.30yb
Gwasanaeth Adfent 5yp

Rhagfyr
4 Boreol Weddi 9.30yb
11 Gwasanaeth Carolau 4yp
18 Boreol Weddi 9.30yb

Clwb Cant
1af (115) Fiona Parry
2ail (36) Pat Jones
3ydd (66) Keith Jones

Ymweliad
Dydd Sul, Hydref 30ain aeth amryw o Fro Ogwen a Bro Eryri ar bererindod i Ffynnon Gwenfrewi ac Abaty Basing. Roedd pawb wedi mwynhau diwrnod diddorol.

Te Nadolig
Dydd Sadwrn, Rhagfyr 10fed mae ein Te Nadolig am 12yp. Dewch draw am panad a mins pei a hefyd i weld Siôn Corn!

Clwb 100 Canolfan Tregarth
Mis Medi
40 Sulwen Roberts - £15
37 Angharad William - £10
6 David Hadfield - £5

Merched y Wawr
Cofiwch am ginio Nadolig y gangen yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda nos Lun, Rhagfyr 5. Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd, Angharad Williams (601544) neu'r Trysoryddion, Jên Morris (600282) ac Andrea Williams (602761).

Capel Shiloh
Oedfa am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol

Tachwedd
13 Geraint Roberts,
Porthaethwy

20 Trefniant Lleol
27 Dafydd Hughes, Caernarfon

Rhagfyr
4 Trefniant Lleol
11 Gwynfor Williams
18 Oedfa Deulu y Nadolig (4 o'r gloch)

Swper Diolchgarwch
Braf iawn oedd dod at ein gilydd fel aelodau Capel Shiloh ym mis Hydref i fwynhau Swper Diolchgarwch hyfryd a baratowyd gan ferched y capel. Roedd y noson hefyd yn gyfle i groesawu ein Gweinidog, Philip Barnett a'i wraig Catherine, i'n mysy i sôn am eu taith noddedig anturus yn y car bach gwyrdd o gwmpas arfordir Prydain er budd y clefyd MS yn ystod mis Awst eleni. Roedd cyfle i fwynhau'r daith drwy gyfrwng lluniau o'r amrywiol fannau iddyn nhw ymweld â hwy. Noson arbennig iawn, a thrist meddwl fod yr amser wedi cyrraedd i ni orfod ffarwelio â'r ddau gan eu bod yn symud yn y dyfodol agos i fyw yn Swydd Efrog.

Diolchwyd iddyn nhw am noson werth chweil ac i'r rhai a baratôdd y wledd ar ein cyfer.

Gwasanaethau'r Diolchgarwch
Bore Sul, Hydref 16, bu Oedfa Deulu yn Shiloh, gyda phlant ac ieuenctid y capel a'u rhieni yn cymryd rhan. Gwnaeth pawb ei waith yn rhagorol a rhoddwyd sgwrs hynod amserol a chofiadwy i'r ieuenctid a gweddill y gynulleidfa gan D. Wyn Williams, Tyddyn Dicwm.

Diolch i bawb am y cyfle i ddathlu eto eleni ac i bawb a baratôdd y gwasanaeth.

Nos Lun, Hydref 17, cafwyd pregeth y Diolchgarwch gan ein Gweinidog, y Parchedig Philip Barnett, sef ei oedfa olaf yn Shiloh cyn y mudo mawr. Diolch iddo yntau am ei wasanaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac am ei gymwynasau a'i neges i ni fel aelodau yn Shiloh.

Nos Fawrth, Hydref 25, yn ystod Cyfarfod o Gyngor yr Eglwys, trosglwyddwyd siec ar



Siân Gwenllïan

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

ran yr holl aelodau i Philip a Catherine gyda mawr ddiolch.

Yn ystod y cyfarfod Eglwys trafodwyd y dylem agor drysau Shiloh ar Ddyddiau Gwener gan roi'r cyfle i unrhyw un a hoffai droi i mewn am sgwrs a phaned. Gobeithiwn yn fawr y bydd hyn yn digwydd ym mis Ionawr.

Bedydd
Bu bedydd Griff Lloyd Jones, sef mab bychan Ffion a Dewi Lloyd Jones, Ffordd Tanrhiw, dan ofal y gweinidog yn ystod mis Hydref. Pob dymuniad da i'r bychan ac i'w rieni.

Gwaeledd
Ar ddiwedd Mis Hydref, bu Dewi Lloyd Jones, Ffordd Tanrhiw, yn wael yn Ysbyty Gwynedd ond da ydi deall ei fod yn gwella. Mae Dewi yn fab i Olwen a Tudor Jones, Fferm Coedhywel.

Profedigaeth
Yn ystod yr oedfa nos Sul, Hydref 30, cydymdeimlwyd gyda Gwen, Valmai, Fred a'r holl deulu yn eu profedigaeth o golli eu brawd yng nghyfraith, sef Raymond Tugwell, Llanllechid a fu farw yn ystod yr wythnos.

Nain a Thaid
Llongyfarchiadau i Meinir ac Arwel Edwards, Tir Tegla, Tregarth ar achlysur hapus o ddod yn nain a thaid i Deio Glyn, mab a aned i'w merch, Llinos, ac Owen Bracegirdle, Llanrug, ar 25 Medi. Brawd bach i Elenid.

Gwaeledd
Cofion at Robert Hugh, 22 Ffordd Tanrhiw sydd ddim yn dda ei iechyd ar hyn o bryd ac yn aros efo'r ferch, Muriel, a'i gŵr, Eric, yn y pentref.

Diolch
Dymuna Alun Wyn Jones, 56 Bro Syr Ifor, ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau a dymuniadau da a dderbyniwyd ganddo yn ystod ei gyfnod yn Ysbyty Stoke ac wedi iddo ddod adref. Bu raid i Alun gael llawdriniaeth yn dilyn ddamwain ddrwg tra'n beicio ddechrau mis Medi. Da gweld ei fod wedi gwella'n dda erbyn hyn.



Os ydych am weld Dyffryn Ogwen yn edrych yn daclusach ymunwch â'r criw yn y Sesiwn Casglu Sbwriel

Bore Gwener, 25 Tachwedd

Cyfarfod am 10.00 o'r gloch ym Maes Parcio Gwaelod Pantdreiniog, Bethesda



Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Tachwedd

20 Oedfa yng ngofal Teulu Royal
27 Parchg. Gwyndaf Jones.

Rhagfyr

4 Parchg. Dafydd Lloyd Hughes.
11 Oedfa yng ngofal Tomos.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Ysgol Bodfeurig

Zoo Lab

Ydych chi'n hoffi creuadriaid bach? Yna mi fuasech wrth eich bodd pan ddaeth Zoo Lab i'r ysgol gyda llawer o greaduriaid o bob lliw a llun. Cawsom gyfle i ddysgu mwy am scorpion, chwilen, cranc meudwy, neidr filtroed, crwban a...mochyn cwta! Roedd gan pawb eu hoff anifail ond yn ben dant y mochyn cwta oedd yr anifail mwyaf poblogaidd.



Gourmet Byd Eang

Mae dosbarth Ogwen wedi teithio i bellafoedd byd trwy gyfrwng eu thema



Nyth Y Gân

Y Dail

Mor dawel oedd ymhobman,
A chysgu oedd y coed,
Ni welid 'run symudiad,
Ni chlywid sŵn 'run troed.

Tawelwch sy mor werthfawr
I'w gael mewn prysur fyd,
Ac o fewn tŷ gwyngalchog
Mae hwn i'w gael o hyd.

O edrych drwy y ffenest
A sylwi ar yr ardd
Fe ddygodd oerni Hydref
Y blodau oedd mor hardd.

Ond O! am liwiau prydferth
Oedd ar y brigau mân;
Rhai'n felyn ac yn borffor
A rhai yn goch fel tân.

Godidog ydyw natur
Bob blwyddyn gwelwn hyn
Ond 'mhen ychydig amser
Y coed i gyd fydd wyn.

Rhaid aros am beth amser
I'r gwanwyn ddod ar daith
A deffro'r holl blanhigion
O'u trwmgwsg fu mor faith.

Fe ddaw y blagur eto
Â nodd y gwreiddiau'n sail
I warchod bywyd newydd
Y gwyrddni yn y dail.

diweddaraf – gourmet byd eang. Trwy'r thema cafodd pawb gyfle i ddysgu am fwydydd gwahanol o wahanol wledydd, milltiroedd bwyd ac sut i ddefnyddio taenlenni i gyfrifo costau mewn bwyty. Uchafbwynt y thema oedd ymweliad â bwyty Eastern Origin ym Mangor gyda pawb yn blasu bwydydd bendigedig.

Caerdydd

Cychwyn yn fuan yn y bore oedd hanes blwyddyn 5 a 6 wrth iddynt gychwyn ar daith gyffrous yr holl ffordd i Gaerdydd! Yn ystod yr ymweliad cafwyd cyfle i ymweld â'r Big Pit, Techniquet a'r Cynulliad gan gael y fraint o gyfarfod ein aelod seneddol Sian Gwenllian. Wrth deithio adref cafwyd ymweld â Sain Ffagan

Geo-Cash

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i brosiect Llwybrau Llechi. O dan arweiniad Anita

Llywelyn ap Gruffudd,

Tywysog Cymru

(mewn llun)

Ar y mur gwelir mawredd, a hwnnw'n
Creu hanes y bobloedd;
Yn ei nwyf Llywelyn oedd
Yn angor ddaliai'r rhengoedd.

Afon Ogwen

(ar dywydd braf)

Arafed yw ei rhedeg, yn dawel
A diwyd a glandeg,
A gyr dros ambell garreg
Yn ddi-stŵr â'i dŵr mor deg.

Creu Englyn

Mor siŵr fu'r gŵr o'r geiriau, i'w gosod
Hwy'n gyson o'r dechrau,
I ddwgyd y brawddegau
Yn gain a'r cyfan yn gwau.

Aderyn y Gwanwyn

Hin aeafol a gofir, â'r eira
Mor oer yn y cefndir;
Nodau mân ry dân i dir
A'i wanwyn ef a enir.

Naid y Brithyll

Mae o draw'n creu modrwyau, yn neidio
O hyd am ei brydau
A hi'n haf a ni'n mwynhau
Melys, bleserus oriau.

Dafydd Morris

Daimond aeth plant bl 5 a 6 ar antur yn chwilio am Geo-Cashes yn yr ardal leol. Roedd hyn yn cyfle gwych i ddatblygu sgiliau darllen map a mwynhau bod yn eu milltir sgwar.

Diwrnod Golchi

Diolch yn fawr i Gwenda o Archifdy Caernarfon am ddod i ddysgu dosbarth Idwal am ddiwrnod golchi ers talwm. Cafodd pawb gyfle i weld offer fuasai wedi ei ddefnyddio i olchi dillad cyn trydan. Hoff beth y dosbarth oedd rhoi cynnig ar olchi dillad ei hunain.

Cegin Fwd

Beth yw eich hoff fwyd i'w goginio yn y gegin? Cacen? Bisgedi? Ddim yn cegin newydd Bodfeurig – cegin fwd!! Mae'r gegin wedi bod yn boblogaidd iawn ymysg plant yr ysgol ac maent wedi cael oriau o hwyl yn chwarae yn y mwd yn creu pob math o 'fwydydd' gwahanol.

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor
LL57 4HU ☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái,
Bangor LL57 4HU ☎ 01248 351633

Llongyfarch
Llongyfarchiadau i Ceri ac Aled Hughes, Cil Marian ar ddod yn Nain a Taid. Ganwyd bachgen bach, Tomos Ifan, i'w merch Lowri a Gareth Jones draw yn Ninorwig. Pob hwyl i'r teulu bach.

Symud Tŷ
Symudodd Mrs Olive Davies, 6 Tanybryn i fod yn nes at ei mab yng Nghaerdydd.

Bingo Talgae
Er gwaethaf cynulleidfa fechan, gwnaed elw o £60. Diolch i'r cefnogwyr, a diolch hefyd am y rhoddion.

Eglwys Sant Tegai, Llandygái
Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Llandygái
Pleser oedd cael croesawu holl ddisgyblion, athrawon a rhieni Ysgol Llandygái i'r eglwys ar Hydref 20fed i ddathlu Diolchgarwch y Cynhaeaf. Trefnwyd rhaglen amrywiol a safonol gan yr athrawon o dan arweiniad y prifathro, Mr Elfed Morgan Morris. 'Roedd y Parchedig John Matthews, Ficer yr Eglwys a Chadeirydd y Llywodraethwyr, yn bresennol ynghyd ag aelodau eglwysig y Corff Llywodraethol.

Pererindod Bro Ogwen 2016
Aeth nifer o blwyfolion o'r 6 eglwys ym Mro Ogwen ar bererindod i ddilyn llwybr hanes Sant Gwenfrewi yn ardal Treffynnon ddydd Sul, Hydref 30ain. Braf hefyd oedd cael cwmni unigolion o Fro Eryri. Bu cyfle i fynychu gwasanaeth yn Eglwys Sant Iago, Treffynnon cyn ymweld â ffynnon hanesyddol Sant Gwenfrewi. Yn adfeilion Abaty Dinas Basing (Basingwerk Abbey) cyflwynwyd sgwrs gan Edmond Douglas Pennant ar un o'i gyndadau sef Thomas Pennant, abad yn y sefydliad

ac un o ddisgynyddion Hywel Dda. Mae Abaty Dinas Basing yn fan cychwyn Llwybr Pererinion Gogledd Cymru sy'n arwain at Ynys Enlli. Yn y prynhawn roedd ymweliad â Brodordy Pantasaph i wrando ar gyflwyniad am fywyd mynachlog gan y Chwaer Julian sydd yn aelod o Urdd Sant Cuthbert ac yn aelod o dîm Bro Ogwen. Diolch i'r Parchedig John Matthews ac i Mrs Sue Matthews am drefnu diwrnod ardderchog a chyfleoedd i werthfawrogi canolfannau pwysig yn hanes ysbrydol a chymdeithasol gogledd Cymru.

Gwasanaeth yr Holl Eneidiau
Cynhaliwyd gwasanaeth traddodiadol yr Holl Eneidiau yn yr eglwys ar Dachwedd 2ail fel cyfle arbennig i weddio dros eneidiau'r meirw. Cyflwynodd y gynulleidfa enwau eu hanwyliaid i'w coffáu mewn gweddi.

Codi Arian i Eglwys Sant Tegai
Mae sawl ymgyrch yn ystod mis Tachwedd i godi arian at atgyweirio'r eglwys. Ar Dachwedd 20fed, bydd Huw Llewelyn Jones yn rhedeg Hanner-marathon Conwy er budd Cronfa Parkinson's ac er budd Atgyweirio Sant Tegai. Derbynnir unrhyw roddion yn hynod ddiolchgar gan Ann E. Williams, Edmond Douglas Pennant (wardeiniaid) neu Rhian Llewelyn Jones erbyn dydd Sul, Rhagfyr 4ydd.
Bydd noson Bingo am 7 o'r gloch yn Neuadd Talgai ar nos Fawrth Tachwedd 29ain. Dewch i fwynhau noson hwyliog gyda phaned a bisgedi yn ystod yr egwyl. Pauline a Raymond fydd yn arwain y noson fel arfer.

Cydymdeimlo
Gyda thristwch y cofnodir

farwolaeth Mrs Constance (Jane) Couch yn 94 oed. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Bangor ar Hydref 28ain. 'Roedd Mrs Couch (gynt o Fynydd Llandygái) yn aelod ffyddlon o Eglwys Sant Tegai ac anfonwyn ein cydymdeimlad at ei theulu a'i ffrindiau.

Gwasanaethau Nadolig Eglwys Sant Tegai
Bwriedir cynnal gwasanaeth dwyieithog traddodiadol

Naw Llith a Charol wrth olau kannwyll ar nos Sul, Rhagfyr 18fed am 5 o'r gloch yr hwyr. Ceir lluniaeth ysgafn nadoligaidd yn Neuadd Talgai ar ôl y gwasanaeth. Dewch i fwynhau naws y Nadolig!
Amseroedd gwasanaethau Sant Tegai
Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y.b.
Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant, Bethesda ☎ 600689

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â Mrs Elna Jones a Mrs Rita Jones sydd wedi colli perthynas ym Methesda.
Hefyd rydym yn meddwl am Mr a Mrs E. Pritchard, 1 Bron Arfon, Rachub yn eu profedigaeth o golli eu mab, Kevin, ym Mangor.

Magwyd Kwevin yn Nant-y-Graen am gyfnod cyn i'r teulu symud. Derbyniwch ein cydymdeimlad.
Triniaeth
Mae Mr Stephen Jones, Coed Ogwen, Rhes Jâms yn cael triniaeth, a dymunwn y gorau iddo am adferiad iechyd.

武術 中国 功 身 心 并 练 兼 扬

Wu Shu Kwan®
Chinese Kickboxing
The Ultimate Art of Fitness & Self-Defence

E-bost: info@wushukwan.com Neges Destun: 07835 244398 Ffôn: 020 8749 8537

Gwefan: www.wushukwan.com \ Gwelyfr: Wu Shu Kwan - Official / Trydar: @WuShuKwan

MAE EIN SYSTEM UNIGRYW O KUNG FU TRADDODIADOL AM EICH HELP Y GDYA:

- GWELLA FFITRWYDD
- COLLI PWYSAU
- EDRYCH YN DDA
- HUNAN HYDER
- CYRARFOD FFRINDIAU NEWYDD
- TRECHU OFN
- RHEOLI STRAEN
- DWEUD HWYL-FAWR WRTH FWLIO
- GWIREDDU BREUDDWYD YM MYD Y CREFFTAU YMLED

Croeso cynnes i bawb yn enwedig rhai di-brofiad
Am fwy o fanylion neu os am roi cynnig arni, dewch draw i'r dosbarth yn

NEUADD OGWEN
Stryd Fawr, Bethesda
CANOLFAN TREGARTH
Hen Stesion, Tregarth ger Bangor, Gwynedd, G. Cymru
- Hyfforddwr -
Prif Hyfforddwr - JAKE FITZPATRICK
4ydd Gradd Gwregus Du
Is-hyfforddwr - ELENA FITZPATRICK
3ydd Gradd Gwregus Du

Y FFORDD HAWSA A'R MWYAF EFFEITHIOL I WELLA EICH:
Cryfder • Cyflymdra • Ystywythder • Hyblygrwydd • Cydbwysedd • Cydlyniant a Symudedd y Corff

DIM TALIADAU MISOL DRUD - Symudol: 07769 584646

Cefnogwch eich busnesau lleol!

Siop Ogwen yn barod at y Nadolig

Mae un o fentrau cymunedol y Stryd Fawr yn brysur baratoi at y Nadolig gyda stoc newydd o grefftau lleol Nadoligaidd yn ein cyrraedd bob dydd. Mi fydd darllenwyr y Llais wedi sylwi fod ffenestr Siop Ogwen wedi cael ei haddurno'n drawiadol dros y misoedd diwethaf, a diolch i Becs, Gweinyddwr y siop, a Lowri o Twinkle & Gloom am yr arddangosfeydd gwyh!

Mae'r siop yn edrych ymlaen i gymryd rhan yng nghystadleuaeth Ffenestr Siop Nadolig Bethesda a bydd yr addurniadau Nadolig i fyny erbyn y noson siopa hwyr ar y 23ain o'r mis hwn. Yn ystod y noson, 6.30 i 7.30 bydd Janice Jones o Dregarth yn llofnodir ei nofel ddiweddaraf 'I Brynu Gwasgod Goch'

ac edrychwn ymlaen i groesawu pawb i'r siop am ychydig o siopa Nadolig cynnar. Mae'r siop yn falch o gydweithio â Marchnad Ogwen, Partneriaeth Ogwen a busnesau lleol eraill i agor eu drysau gyda'r hwyr a gobeithio y daw dipyn o bobl i lawr i'n cefnogi.

Rydym hefyd yn brysur dderbyn archebion am lyfrau Nadolig ac mae copi o gylchgrawn 'Gwledd y Nadolig' yn y Llais y mis hwn yn barod i chi archebu eich llyfrau Nadolig o Siop Ogwen! Mi fydd Siop Ogwen yn mynd â stondinau i ffeiriau Nadolig amrywiol dros y mis nesaf ac edrychwn ymlaen i'ch gweld ar hyd a lled y fro. Byddwn hefyd yn ymestyn ein horiau agor tan y Nadolig i fod ar agor trwy'r dydd bob Sadwrn.

Ysgol Gynradd Llandygái

Diolchgarwch
Cawsom wasanaeth bendithiol iawn fore Iau, 20fed o Hydref yn Eglwys Tygai yng nghwmni'r Parch. John Mathews ac aelodau o'r Llywodraethwyr. Roedd pob dosbarth yn perfformio yn unigol, a thema'r gwasanaeth oedd Pobl Sy'n Ein Helpu a diolch amdanynt.

Noson Gwricwlaidd Llythrennedd
Daeth criw bychan o rieni i wrando ar gyflwyniadau gan gydlynwyr iaith yr ysgol yn esbonio cynlluniau a bwriadau'r ysgol yn ystod y flwyddyn nesaf ynghylch datblygu elfennau darllen a llafar y cwricwlwm. Hefyd, daeth Mr Ifan Llewelyn Jones o Hunaniaith Gwynedd i esbonio gwerth a phwysigrwydd bod yn ddwyieithog. Roedd cynrychiolaeth o Lyfrgell

Bangor a Siop Lyfrau Awen Menai yn bresennol ar y noson a chafwyd sgwrs hynod o ddiddorol dros baned a bisgedan. Diolch i bawb am noson lwyddiannus.

Ymweliad Heddlu Cymunedol
Diolch i ddau heddwes cymunedol lleol am ddod i'r ysgol i drafod Noson Tân Gwyllt gyda holl ddisgyblion yr ysgol. Mae'n braf cael aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r ysgol a dod i adnabod y disgyblion.

Ymweliad Dosbarth Awel
Aeth disgyblion Dosbarth Awel draw i Tesco yn ddiweddar er mwyn blasu ffrwythau gan mai 'Ffrwythau' yw thema'r tymor. Cawsant groeso mawr, a diolch i Tesco am ymweliad hynod ddiddorol.

Marchnad Ogwen

Cyfle olaf i wneud eich siopa Dolig yn Pesda!

Fel y cyfeiriwyd yn y Llais mis Hydref, bydd y Farchnad Nadolig nos Fercher, Tachwedd 23ain yn Neuadd Ogwen o 5 tan 8 o'r gloch. Mae'n argoeli'n noson dda!

Rhagfyr 10fed fydd y Farchnad olaf cyn y Nadolig. Rydym yn gobeithio y bydd rhan o Fand Arian Deiniolen yn ymuno â ni fel y llynedd. Cyfeillion Ysbyty Gwynedd sy'n cynnal y Stondin Elusen

ac Elen gyda Scrabels ar y Stondin 'Un Tro' Bydd cyfle i chi brynu coeden 'Dolig go iawn hefyd. Mae manylion am holl stondinau parhaol y Farchnad ar ein gwefan gyda gwybodaeth sut i gysylltu gyda'r Stondinwyr os ydych eisiau archebu newyddau. Y wefan yw www.marchnadogwen.co.uk Mae gwybodaeth gyfredol am y Farchnad ar Facebook a Twitter.

Dewch yn llw a chroeso cynnes!

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen

11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

S4C

Nia a Iolo

Mae Iolo a Nia yn byw ym Methesda. Bydd priodas y ddau ym Miwmares, i'w gweld ar S4C mewn cyfres newydd **Priodas Pum Mil**, lle mae teulu a ffrindiau'n trefnu priodas cwpl am £5000.

Bu S4C yn holi Iolo, sy'n wreiddiol o Lannerchymedd, Ynys Môn am y profiad.

8.00 Nos Sul 13 Tachwedd

Ers faint ydych chi efo'ch partner?
Rydyn ni efo'n gilydd ers 13 mlynedd. Fe wnaethom ni gyfarfod yng nghlwb nos 'Time', Bangor ar nos Wener. Mi wnaethom ni siarad efo'n gilydd, a sylwi mod i yn y coleg yn astudio at NVQ efo brawd Nia!

Sut wnaethoch chi ddyweddio?
Mi wnaethon ni ddyweddio mewn bwyty ym Manceinion dair wythnos ar ôl i S4C ddod i gyfarfod ni yn Ionawr. Ond do'n i ddim wedi bwriadu dyweddio tan ddiwedd y flwyddyn.

PRIODAS PUM MIL

Pam benderfynoch chi gael ffrindiau a theulu i drefnu eich priodas?
Mi rydyn ni'n gwpl sy'n licio gwneud pethau yn wahanol i bawb arall, a be' well na hyn?

Sut brofiad oedd cael eich ffrindiau a'ch teulu yn trefnu eich priodas?
Roedd o'n brofiad grêt! Mae pawb wedi dweud wrthon ni eu bod nhw 'di cael gymaint o hwyl yn trefnu ein priodas, ond gydag ychydig o 'stress' wrth gwrs! Ond roedd o'n brofiad braf iawn i Nia a fi. Rydyn ni'n lwcus iawn.

Oeddech chi'n nerfus o gwbl?
Roedd Nia yn teimlo'n nerfus iawn am ba ffrog roedd hi'n gorfod ei gwisgo! Roedd hi eisiau diwrnod priodas neis, ond roedden ni'n ddigon hapus efo pwy oedd yn trefnu ein priodas i ni.

Aeth 'na rywberth yn anghywir ar ddiwrnod eich priodas?
Fydd rhaid i chi wyllo'r rhaglen i weld!

Bydd modd gwyllo'r rhaglen am 35 diwrnod wedi'r darllediad ar s4c.cymru a BBC iPlayer.

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Priodas

Yng nghapel Horeb, Rhostryfan yn ddiweddar bu priodas Esyllt ac Alan Davies, 31 Bro Rhiwen. Y mae Esyllt yn ferch i Alwyn a Nerys Evans ac yn wyres i'r diweddar Gruffudd Thomas a Rhiannon Evans. Bu'r mis mêl yn Grand Canaria. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

Pen-blwydd arbennig

Y mae Mrs Bet Jones, 20 Bro Rhiwen wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Yn wreiddiol o Nefyn y mae wedi byw yn y pentref ers 1952 pan fu iddi hi a'i diweddar briod, Arthur, briodi, ac yma y magwyd y plant, Eric Deiniol, Arfon a Margaret. Gobeithio ichi fwynhau'r pen-blwydd a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Clwb Rhiwen

Hydref 12. Roedd sawl un wedi methu â bod yn bresennol ond fe gawsom bnawn pleserus yn chwarae bingo. Jean a Mair oedd yn gyfrifol am y baned.

Hydref 26. Trist iawn oedd clywed am farwolaeth un o'n haelodau, Enid Williams, Pen Bonc a fu farw'n dawel yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun. Cawsom baned a sgwrs, ac Irene oedd yn gyfrifol am y baned. Roedd Myra hefyd wedi cyfrannu at y lluniaeth ond yn methu â bod yn bresennol oherwydd anhwylder. Brysiwch wella, Myra. Yn y cyfarfod nesaf, fe fydd cwis wedi'i drefnu gan Ann a Frances.

Merched y Wawr

Cyfarfod Mis Hydref. Dyma'r cyfarfod cyntaf wedi'r haf. Linda oedd yn llywyddu a braf iawn oedd croesawu dwy aelod newydd o Fethesda, Gwenno Evans a Jean Ogwen Jones. Atgoffwyd ni fod y gangen wedi'i sefydlu yn 1976 ac Annes oedd y llywydd cyntaf. Bu Linda yn tyrchu drwy hen rifynnau Llais Ogwan ac un peth a gofnodwyd oedd mai Einir enillodd yr unawd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberteifi yn 1976. Cawsom wybodaeth am y cwis blyneddol, ysgol undydd i ddysgwyr, cynllunio cardyn Nadolig a hefyd am y Prosiect Treftadaeth. Penderfynwyd hefyd mai yn y bwyty ar faes carafanau Traeth Coch y bydd ein cinio Nadolig.

Ein gwraig wadd oedd Carrie Rimes o Cosyn Cymru, cwmni cynhyrchu caws a sefydlodd yn ddiweddar. Mae'n Wreiddiol o Ddyfnaint, wedi ei magu ar fferm fechan a'r pryd hynny roedd ganddi ddiddordeb mewn gwneud caws. Wedi symud i Gymru a dysgu Cymraeg a bu'n

gweithio gyda Chyngor Cefn Gwlad ond yn ddiweddarach symudodd i Ffrainc a gwirfoddoli i weithio ar bedair fferm a mynd ati i ddysgu sut i wneud caws. Wedi dod adref aeth ati o ddifrif i wneud caws gan ddefnyddio llaeth dafad yn unig, sy'n dod o Sir Gaerhirfryn am nad oes dim ar gael yn lleol. Bu'n arbrofi yng Nghanolfan Technoleg Bwyd yn Llangefni a bellach yno hefyd y mae'n cynhyrchu'r caws. Mae enwau diddorol i'r cawsiau, Caws Olwyn Fawr, Caws Chwarel a chaws Brefu Bach. Bellach mae'n gwerthu'r caws ym Moelyci ac mae ganddi gynlluniau diddorol ar gyfer y dyfodol.

Roedd pawb o'r farn inni gael noson agoriadol hynod o ddiddorol a diolchwyd i Carrie am ddod atom. Mis nesaf, Tachwedd 8ed fe fydd Bet Jones, Bryn Seiriol gynt yn dychwelyd atom i gyflwyno a thrafod ei nofel ddiweddaraf, Y Nant. Croeso i aelodau hen a newydd.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Lloches bws Rhiwlas: Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gyngor Gwynedd yn ymateb i'r cais gan y gymuned i gael lloches bws. Esboniwyd nad yw'r cyngor sir bellach yn derbyn grant i'r math yma o waith. Does posib chwaith i'r Cyngor Cymuned ariannu'r gwaith gyda'r gost yn anelu at £7,000. Serch hynny, llenwyd ffurflen iddynt gadw'r cais ar ffeil, rhag ofn y bydd grant o'r fath yn y dyfodol.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Olwen a Gareth Owen, a Llinos a Rhian, Caeau Gleision yn eu profedigaeth o golli mam Olwen, sef Roberta Williams o Langejni. Bu farw'n dawel yng Nghartref Bryn Seiont Newydd, Caernarfon. Bu'n gweithio am flynyddoedd gyda chwmni Boots a phawb yn ei hadnabod fel Rita Boots.

Yn yr un modd fe gydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Enid Williams, Pen Bonc, Cae Glas a fu farw yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun. Roedd yn wreiddiol o Lerpwl, wedi'i magu ar aelwyd Gymraeg. Yn ystod y rhyfel treuliodd amser yn Nhalysarn gyda theulu ei mam a phlannodd hyn yr awydd i ddychwelyd i Gymru. Bu'n gweithio fel fferyllydd am gyfnod ac fe fu'n briod â'r diweddar Arthur am 59 mlynedd. Yn Lerpwl y ganed y tri phlentyn hynaf, Dewi, Gareth a Cathy. Yn 1965, daeth y cyfle i symud i Gymru a dod i Rhiwlas i gadw siop y pentref a'r post. Yna fe aned y ddau blentyn ieuengaf, Bethan a Sion, a Sion a roddodd deyrnged annwyl iawn i'w fam. Mewn amser symudodd y teulu i Bronnydd ac yna i Dregarth. Wedi marwolaeth Arthur yn 2014, yn ôl i Rhiwlas y daeth i fyw gyda Cathy. Bu'r angladd

yn Eglwys Sant Cedol gyda'r Parch. John Mathews yn gwasanaethu a Robert Jones wrth yr organ. Braf oedd gweld cynifer o'r wyrion yn bresennol yn y gwasanaeth. Derbyniwyd rhoddion tuag at elusennau lleol.

Llwyddiant addysgol

Braf yw clywed am blant y pentref yn llwyddo yn yr ysgol, ac yn noson wobrwyo llwyddiant Ysgol Dyffryn Ogwen yn ddiweddar bu sawl plentyn yn llwyddiannus. Llongyfarchiadau i'r canlynol:

Lletygarwch - Manon Jones

Dylunio a Thechnoleg - Hannah Cook

Ymdrech Blwyddyn 7 - Gwen Williams

Ymdrech Blwyddyn 9 - Megan Williams

Presenoldeb 100 % - Sophie Tewson a

Megan Williams

Tîm y flwyddyn - Megan Williams, aelod o dim athletau yr ysgol i ferched Bl 9 - 10 a ddaeth yn 3ydd yn Eryri ond colli i fynd i'r rownd nesaf o un marc yn unig.

Torri record ar ddiwrnod y mabolgampau - Erin George.

Da iawn chi ferched, a dymuniadau gorau i chi yn y dyfodol.

Calendr Llais Ogwan 2017

Mae'r calendrau wedi cyrraedd, a'r pris fel y llynedd sef £4 yr un. Maent ar gael oddi wrth eich dosbarthwr neu gen innau hefyd. Mae'r calendr yn hwylus i'r cartref a hefyd yn anrheg Nadolig derbyniol iawn.

EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN

NOS WENER, 18 TACHWEDD
6.00yh

yn Neuadd Ogwen

Seremoni'r Orsedd,
Cystadlaethau'r Corau
Unawdau Lleisiol ac Offerynnol
a Chystadleuthau i Ysgolion Uwchradd

SADWRN, 19 TACHWEDD
10.00yb

yn Ysgol Dyffryn Ogwen

Gwledd o Gystadlaethau Cynradd:
Canu, Llefaru, Dawns, Celf a Chrefft

DEWCH YN LLU

CYFARFOD ARBENNIG IAWN: PA HANES A DDYSGIR I'N PLANT?

Dydd Sadwrn, 26ain Tachwedd,
1-4pm yng Nghanolfan Hanes
Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr LL54 5BT.

Siaradwyr: Dr Elin Jones ac Eryl Owain
Am ragor o fanylion, cysylltwch â ni,
01286 660 546,
canolfanuwwchgwyrfai@gmail.com
Anghofio ein hanes yw bradychu ein gwlad.

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach, Coed y Parc,
Bethesda, LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant,Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

Yr Eglwys Unedig
Y Gymdeithas
Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor ar Hydref 13eg. Croesawyd pawb gan ein Llywydd, Joe Hughes. Anfonwyd cofion at bawb nad oedd yn gallu bod efo ni. Cydymdeimlwyd â Doris Shaw yn ei phrofedigaeth o golli llysferch. Croesawyd tair merch ifanc a mam i ddwy ohonynt sef Edern o Fodedern, Ynys Môn – Elain a Glesni Rhys, dwy chwaer, ac Annest Mair, y tair yn ddisgyblion ynn Ysgol Bodedern. Cafwyd noson ddifyr iawn yn eu cwmni, a rhoesant berfformiad proffesiynol iawn inni. Eu cyfeilydd oedd Ann Peters Jones. Diolchwyd iddynt gan Joe, a mynegwyd gwerthfawrogiad o waith y pwyllgor yn darparu lluniaeth ysgafn ar y diwedd.

Diolchgarwch
Cafwyd oedfa Diolchgarwch gan y plant fore Sul, Hydref 16eg. Roedd canmoliaeth mawr i’r oedfa. Daethant y plant â’u rhoddion bwyd yn gyfraniad at y Banc Bwyd. Fore Llun, cafwyd oedfa Diolchgarwch o dan ofal Eurwen ac Elna a Joe yn cymryd rhan. Diolch iddynt am eu gwaith a’u parodrwydd i gyfrannu.

Clwb Nos Fawrth
Mae’r Clwb Nos Fawrth wedi dechrau ar eu gweithgareddau ac yn brysur iawn.

Cyfarfod am Sgwrs
Mae’r baned ar ôl oedfa’r bore a boreau Iau yn dal i gael nifer dda o’r aelodau’n cyfarfod am sgwrs. Diolch i’r rhai sy’n trefnu hyn.

Oedfaon
Mae’r oedfaon wedi bod yn gysur ac yn addysgiadol dros ben i ni i gyd.

Côr y Dyffryn
Mae Côr y Dyffryn yn brysur yn ymarfer at y Gwasanaeth Nadolig dan ofal Menai.

Cydymdeimlo
Collwyd aelod, John Hughes, Bronafon, Bontuchaf, ar ôl gwaeledd blin iawn. Cydymdeimlwyd â’i briod, Anwen, a’i ferched, Melanie a Meinir , a’r teulu oll yn eu colled. Bu’r angladd yn y capel dan arweiniad y Parch. Huw John Hughes.

Cydymdeimlwyd â Doris Shaw yn ei phrofedigaeth o golli llysferch.

Yr Ysgol Sul
Mae gweld a chlywed y plant bob amser yn codi ein calonnau. Croeso i blant ymuno â’r Ysgol Sul.

Clwb Celf
Mae’r Clwb Celf wedi ailafael ynddi ar foreau Mercher rhwng 10 a 12 ac mae croeso i aelodau newydd.

Cyhoeddiadau
Tachwedd
20 Y Parch. Marcus Robinson
27 Y Parch. Ddr Huw John Hughes

Rhagfyr
4 Y Parch. Dafydd Ll. Hughes
11 Y Parch. Geraint Roberts 5pm
18 Gwasanaeth y Nadolig 5pm

Pen-blwyddi Arbennig
Llongyfarchiadau i Mrs Glenys Rowlands, Adwy’r Nant, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd arbennig ar 19 Hydref. Hefyd pen-blwydd hapus a chofion cynnes at Mrs Heddwen Jones, Rhos y Coed ar achlysur ei phen-blwydd arbennig ar 8 Tachwedd.

Taid a Nain
Llongyfarchiadau i Alan a Marion Sullivan, Rhes Mostyn ar yr achlysur hapus o ddod yn daid a nain i Wendy.

Ysbyty
Cofion cynnes a gwellhad buan i Mr O. Cross, Adwy’r Nant wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

Damwain
Cafodd Mrs Helen Roberts, Ffordd Ffrydlas ddamwain tra’n siopa ym Mangor yn ddiweddar. Da deall eich bod yn gwella Helen. Cofion cynnes atoch.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr a Mrs John Davies a’r teulu, Tanysgafell Isaf, yn eu profedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith Gwen, sef y ddiweddar Mrs Dorothy Williams. Cydymdeimlwn hefyd â’i phriod, Mr Deiniol Williams (Bingley, Swydd Efrog) a’r teulu.

Marwolaethau
Mrs Margaret Ann Davies
Ar 5 Hydref bu farw Mrs Margaret Ann Davies, 4 Tan y Gaer yn 87 mlwydd oed. Priod y diweddar Mr Emlyn Davies (Shep), mam Muriel a Meirwyn, nain hoffus Owain, Siân, Catherine, Bethan a’r

ddiweddar Angharad. Roedd hefyd yn hen nain annwyl. Bu’r gwasanaeth angladdol yng Nghapel Carmel, Llanllechid a mynwent Coetmor ddydd Iau, 13 Hydref. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, a chafwyd teyrnged i nain gan ei hwyres. Mrs Helen Williams oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

Mrs Lona Ann Henderson
Yn sydyn yn ei chartref, 21 Ffordd Morton, Caergybi yn 29 mlwydd oed, bu farw Mrs Lona Ann Henderson. Priod Mr Dylan Henderson a mam annwyl Callum a Liza. Roedd yn ferch i Mr a Mrs Emlyn Williams, Pen y Bryn ac yn chwaer i Sharon, Cheryl, Emlyn a’r ddiweddar Liza. Cafwyd gwasanaeth yn nghapel Jerusalem a mynwent Coetmor ddydd Mawrth, 25 Hydref gyda’r Parchg. Ddr. Hugh John Hughes yn arwain a Mrs Menai Williams wrth yr organ. Mae ein cydymdeimlad yn fawr iawn atoch fel teulu i gyd yn eich profedigaeth fawr.

Mr Alun Hughes
Ar 25 Hydref, yn ei gartref yn 35 Maes Coetmor yng nghwmni ei deulu, bu farw Mr Alun Hughes yn 79 mlwydd oed. Priod annwyl Mrs Alwenna Hughes, tad a thad yng nghyfraith Gill a Sue a Bryn, a thaid caredig Llinos, Erin a Siân a brawd yng nghyfraith i Gwenfyl a David.
Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mawrth, 1 Tachwedd gyda gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor dan arweiniad y Parchedig Dafydd Coetmor Williams gyda Mrs Helen Williams yn cyfeilio. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch chwi Mrs Hughes, a’r teulu i gyd yn eich colled a’ch hiraeth.

Mr John Hughes
Yn yr ysbyty, ar 14 Hydref, wedi salwch hir a blin, bu farw Mr John Hughes, Bron Afon, Bontuchaf yn 68 mlwydd oed. Priod annwyl Mrs Anwen Hughes, tad gofalus Melanie a Meinir, a thad yng nghyfraith Dylan. Taid hoffus Siôn ac Elin, a mab Mrs Irene Hughes a’r diweddar Mr John Hughes, Glan Ffrydlas. Gŵr tawel a pharchus oedd John ac yn uchel ei barch gan ei gyd-weithwyr. Bu ei angladd ddydd Gwener, 21 Hydref gyda gwasanaeth yng nghapel Jerusalem a mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Parchg Ddr Hugh John Hughes gyda Mrs Minnie Lewis wrth yr organ. Cydymdeimlwn â thi Anwen, a’r teulu i gyd, a hefyd gyda chwi, Mrs Irene Hughes.

Diolch
Dymuna Anwen Hughes, Bronafon, Bontuchaf, a'r teulu ddiolch yn ddiffuant

am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth ddiweddar. Bu'r ymweliadau, galwadau ffôn a'r llu o gardiau o gysur mawr. Diolch arbennig am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am John tuag at wardiau Moelwyn ac Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Gorffwysfan

Cynhelir Cinio Nadolig y Clwb ar ddydd Mercher, 7 Rhagfyr am 12.30yp yng Nghlwb Criced a Bowlio Bethesda. Cofiwch roi eich enwau mewn da bryd!

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Noson codi arian yng Nghlwb Pêl-droed Bangor nos Sadwrn, 19 Tachwedd am 7.30yh. Noson yng nghwmni "Elvis" gan Wynne Roberts, Ysbyty Gwynedd.

Diolch

Dymuna Rosalie Williams, Isfryn, Dolgoch, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am eu caredigrwydd tra oedd yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Dymuna hefyd ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am eu gofal a'u caredigrwydd ar ôl iddi ddychwelyd adref, ac am y cardiau a'r blodau a dderbyniodd.

Priodas

Llongyfarchiadau i Helen Williams (merch Huw a Margaret Williams, 4 Erw Las) a Nick Creasey (mab Malcolm a Caroline Creasey, 5 Cefn y Bryn) ar eu priodas ym Mhlas Rhianfa, Porthaethwy at 21ain o Fedi. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol.

Pen-blwydd

Pob dymuniad i Heddwen Williams, Rhos y Coed ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar Dachwedd 8fed.

CYNGOR CYMUNED BETHESDA

Gwahoddiad i dendro am waith llenwi biniau halen

Bydd rhaid i'r contractwr fod yn gymwys o dan y Ddeddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991

Am ragor o fanylion:
Donna Watts, Clerc y Cyngor
Swyddfa Partneriaeth Ogwen,
26 Stryd Fawr, Bethesda
Gwynedd LL57 3AE
cyngorbethesda@ogwen.org
01248 602131



Cyfarchion

Mae Gwilym a Barbara Owen, Rhos y Nant yn dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w cyfeillion a'u cymdogion. Ni fyddwn yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond yn hytrach yn rhoi cyfraniad i elusen leol.

Diolch

Dymuna Selwyn, Gwenllian, Bethan a theulu'r diweddar Marian Eleri Jones, 1, Tyddyn Ddeici, Llanfairpwll, gynt o Rhos y Coed, Bethesda ddiolch o galon i deulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl alwadau ffôn, cardiau, ymweliadau a'r rhoddion hael o £2,747.00 tuag at Antur Waunfawr a Children's Liver Disease Foundation a dderbyniwyd yn dilyn marwolaeth trist Marian. Diolch o galon i bawb.

Cyfarchion

Dymuna Gwen a John, Tanysgafell Isaf roi gwybod na fyddant yn anfon cardiau Nadolig eleni, a hoffent gyfarch eu ffrindiau a dymuno'n dda iddynt.

COFIO ELEANOR

Bore Coffi

Ddechrau Hydref yng Nghanolfan Cefnfaes, cynhaliwyd Bore Coffi er cof am y ddiweddar Eleanor Jones, Bryn Caseg, gan ei theulu, a gyda chymorth ei ffrindiau. Roedd yn fore hynod o lwyddiannus, gyda nifer fawr iawn o bobl o bell ac agos wedi dod yno i gofio am Eleanor. Fe godwyd £1310, a rhoddodd y teulu yr arian tuag at Hospis yn y Cartref, er cof am Eleanor, ac fel diolch am y gwasanaeth arbennig a roddwyd i Eleanor a'r teulu gan yr hospis



Rhai o ffrindiau Eleanor, a Hywel Williams AC yn eu plith, yn y bore coffi.

yn ystod ei gwaeledd blin. Braf oedd gweld Hywel Williams AS, a'i blant wedi dod i Ganolfan Cefnfaes i gefnogi'r bore coffi. Hoffai Richard, a'r plant, Nerys, Delyth, Angharad, a Gareth, a'r teulu i gyd ddiolch o waelod calon i bawb a fu mor garedig yn cynorthwyo gyda'r Bore Coffi, ac a gyfrannodd at y stondinau a'r gwobrau raffi niferus iawn, i'r dyrfa fawr a ddaeth yno, ac i'r holl garedigion a gyfrannodd roddion ariannol tuag at yr achos teilwng.

Cyflwyno Rhodd

Yn dilyn y Bore Coffi llwyddiannus iawn a gynhaliwyd, cyflwynodd teulu'r ddiweddar Eleanor Jones, Bryn Caseg, siec am £1310 i Hospis yn y Cartref, Gwynedd ac Ynys Môn, er cof am Eleanor.



Richard a'i ferch Nerys yn cyflwyno'r siec i gynrychiolwyr staff yr Hospis yn Ysbyty Gwynedd.

Sefydliad y Merched Carneddi

Cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol ar 3 Tachwedd ac mae'r flwyddyn wedi hedfan ers imi gael fy ethol yn Llywydd y gangen. Cyn mynd ymlaen i drafod y flwyddyn flaenorol, fe gawsom ychydig o ymddiheuriadau oherwydd gwaeledd, ac mae ein cofion yn mynd at Glenys Jones a Gwenno Roberts, sydd heb fod yn dda iawn yn ddiweddar. Brysiwch wella, ferched!

Estynnwyd ein cydymdeimlad at Doris Shaw, sydd wedi colli llysferch, a hefyd at Gwen Davies sydd wedi colli chwaer yng nghyfraith. Cofion dwys at y ddau deulu.

Mae Gwen hefyd yn mynd i'r ysbyty ar 15fed o Dachwedd i gael clun newydd. Pob lwc, Gwen, a brysia wella. Mae Dilys, chwaer Jean, wedi cael damwain ac wedi treulio amser yn yr ysbyty, ond mae hi'n ôl ym Mhlas Ogwen erbyn hyn.

Fe fydd gwasanaeth carolau y sefydliadau 2016 yn cael ei gynnal yng Nghapel Seilo, Caernarfon, ar yr 2ail o Ragfyr. Bydd Jean, un o'r aelodau, yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Yr oedd gwraig wadd yn bresennol, ond dim ond fel cynghorydd i'r cyfarfod blynyddol, sef Mrs Pat Jones, cyn-gadeirydd y ffederasiwn. Nid oedd angen ethol swyddogion newydd, felly doedd dim angen cynnal pleidlais.

Cawsom flwyddyn dda iawn yn llawn gwesteion gwahanol i'n diddori, ac ambell i drip allan hefyd. Cytunodd pawb bod y flwyddyn wedi bod yn un lwyddiannus dros ben, yn llawn hwyl a chwerthin yn ogystal â'r bwyta!!

I gloi'r noson, fe gawsom swper gwerth chweil o lobscows, wedi ei baratoi gan Gwyneth Morris, a threiffi gan Jean Hughes yn bwdin.

Diolchodd Gwyneth i Pat Jones am ymweld â'r gangen, ac i'r pwyllgor am y swper. Enillydd y wobr lwcus, rhoddedig gan Gwyneth, oedd Myfanwy Jones.

Carneddi

Derfel Roberts, Llys Artro, Carneddi
☎ 600965 hylaw@btinternet.com

Pen-blwydd Arbennig

Dymunwn yn dda i Nel Williams, Nyth yr Eryr, Ffordd Carneddi ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar y 7fed o Dachwedd.

Pentir

Anwen Thomas, Min yr Afon,
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

Eglwys St Cedol

Clwb 100 Mis Awst
1af Rhif 60 Laura Hosker, Deiniolen
2ail Rhif 29 Tom Perry, Nant Y Garth
3ydd Rhif 14 Sharon Williams

Clwb 100 Mis Medi

1af Rhif 20 Roger Butler, Abertawe
2ail Rhif 53 Pamela Jones,
Llanddeiniolen
3ydd Rhif 8 J Caradog Rees, Pentir

Clwb 100 Mis Hydref

1af Rhif 18 Christina McCrea, Waun Pentir
2ail Rhif 17 E Valerie Amos, Bethesda
3ydd Rhif 40 Nesta Barton, Rhiwen

Bingo

Yn ystod y misoedd diwethaf cynhaliwyd tair noson o fingo yn y Ganolfan, Glasinfryn. Roedd y tair noson yn hwyliog a hynod o lwyddiannus, gyda diolch i Mary am alw'r rhifau a chadw trefn arnom. Hefyd diolch i chwi oll am eich cefnogaeth.

Cerdd a Llên

Nos wener, 26 Awst yn Eglwys St Cedol cafwyd noson o gerddoriaeth a barddoniaeth gyda pherfformwyr yn defnyddio offerynnau a lleisiau. Cafwyd datganiadau cerddorol gan Sharon Williams ar yr organ a'i ffrind Sioned

Roberts o Fangor ar y clarinét. Unawdydd y noson oedd Helen Bradley, a darllenwyd cerddi gan Eira Crocombe, Christina McCrea, Martin Lewis a Nia Roberts. Cafwyd noson wych gyda amrywiaeth helaeth o eitemau. Diolch yn arbennig i'r perfformwyr a diolch arbennig iawn i chwi am eich cefnogaeth.

Bore Coffi

Cynhaliwyd Bora Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes fore Sadwrn, 29 Hydref. Roedd yn fore hynod o lwyddiannus. Diolch i drigolion y fro am eu cefnogaeth.

Ffair Nadolig

Bydd ein Ffair Nadolig eleni ar 26 Tachwedd am 1.30y.h yn y Ganolfan, Glasinfryn. Bydd amrywiol stondinau yn cynnwys cynnyrch cartref, anrhegion a chrefftau llaw. Bydd lluniaeth ysgafn, a chroeso cynnes i bawb.

Dathlu'r Nadolig

Ar nos Wener, 16 Rhagfyr yn Eglwys St Cedol, am 7y.h. bydd noson i ddathlu Gŵyl y Nadolig, gyda datganiadau cerddorol a llafar a charolau cynulleidfaol. Mae Croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y dathlu.

Gwasanaethau'r Sul

Mae'r gwasanaethau bob bore Sul am 9.45. Croeso cynnes i chwi ymuno yn y gwasanaethau.

- 20.11.16 Cymun Bendigaidd
- 27.11.16 Boreol Weddi
- 04.12.16 Cymun Pawb
- 10.12.16 Boreol Weddi
- 17.12.16 Cymun Bendigaidd

Ysgol Tregarth

Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig yn neuadd yr ysgol ar brynhawn Iau, Rhagfyr 1af o 3.30 tan 5.30. Bydd raffl, tombola, paentio wynebau, yn ogystal â stondinau gan grefftwy'r a busnesau lleol. Gobeithio y bydd ymweliad arbennig gan Siôn Corn! Dewch yn llw!

Ymunwch yn hwyl yr ŵyl!

Ymweld â Chaerdydd

Bu disgyblion Ysgol Tregarth ac Ysgol Bodfeurig yng nghwmni Siân Gwelllian AC y tu allan i adeilad y Senedd ym Mae Caerdydd.



Ysgol Abercaseg



Ymweliad Alun Davies

Daeth yr Aelod Cynulliad Alun Davies, ynghyd â chynrychiolaeth o Gyngor Gwynedd, i'r ysgol i weld y Siarter Iaith ar waith. Bu'n sgwrsio â phlant Blwyddyn 2 gan eu holi ynglŷn â gwaith Dreigiau Caseg. Eglurodd y plant wrtho eu bod yn weithgar bob amser chwarae yn helpu pawb i siarad Cymraeg. Cafodd gyfle hefyd i ymweld â dosbarthiadau a phorfi gweithgareddau megis gemau buarth yn ystod amser chwarae.

Disgo Gwisg Ffansi

Dathlwyd diwedd hanner tymor yr hydref gyda disgo gwisg ffansi yn neuadd yr ysgol. Roedd pawb yn werth eu gweld

a phawb am y gorau wrth geisio ennill gwobrau am ddawnsio.

Calendr Ysgol

Tynnwyd lluniau'r plant ar gyfer calendr ysgol fydd ar werth yn fuan. Gwisgodd pawb ddillad oedd yn adlewyrchu mis eu pen-blwydd. Mae croeso I chi gysylltu â'r ysgol os ydych eisiau archebu calendr. Byddai'n gwneud anrheg arbennig gwerth chweil.

Clybiau ar ôl ysgol

Mae plant blynyddoedd 1 a 2 yn cymryd rhan mewn clybiau ar ôl ysgol pob nos fercher. Cafodd plant Blwyddyn 1 ddewis mynychu clwb darllen neu glwb Technoleg Gwybodaeth, tra oedd plant



Blwyddyn 2 yn cael dewis mynychu naill ai clwb coginio neu ddawnsio. Cafodd rhieni plant Blwyddyn 2 ymuno â'u plant i fwynhau dawns a phrydau bwyd.

Diolch yn fawr

Hoffai pawb ddiolch o waelod calon i berchnogion tafarn Y Bull, Bethesda am eu rhodd garedig o £150. Bydd yr arian yn help garw i brynu adnoddau i'r ysgol.

Her Ddarllen

Derbyniodd nifer o blant yr ysgol fedalau am gwblhau her Darllen Mawr Direidus a drefnwyd gan lyfrgelloedd Cymru. Roedd yn braf gweld fod cynifer wedi darllen yn ddiwyd, ac wedi mwynhau ymweld â'r llyfrgelloedd lleol.

Ethol Grwpiau

Mae gwrando ar lais pob plentyn yn rhan ganolog o weledigaeth yr ysgol ac felly etholwyd plant i fod yn aelodau o wahanol grwpiau. Mae pob grŵp - Ffrindiau'r Byd, Sgwad Syniadau, Dreigiau Caseg a Bysedd Gwyrdd - yn cyfarfod bob pythefnos i drafod sut i addysgu gweddill y plant ynglŷn â neges eu grŵp.

Ysgol Pen-y-bryn

Y Siarter Iaith

Braint oedd cael croesawu Mr Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, i Ysgol Abercaseg ac Ysgol Pen-y-bryn ar 13 Hydref er mwyn dangos arferion rhagorol y ddwy ysgol gyda'r Siarter Iaith. Yn ogystal â Mr Alun Davies AC, daeth y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Ann Williams a Mr Garem Jackson, Swyddog Addysg Ardal Cyngor Gwynedd, i weld gwaith blaengar y Cyngor Ysgol, Dreigiau Doeth a Dreigiau Caseg wrth iddynt ymgymryd â'r dasg o ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg. Yn gyntaf, buont yn Ysgol Abercaseg a sgwrsio gyda phlant Blwyddyn 2 ynglŷn â gwaith Dreigiau Caseg a'u rôl gyda helpu pawb i siarad Cymraeg. Yna, cawsant gyfle i ymweld â'r dosbarthiadau a phrofi gweithgareddau megis gemau buarth yn ystod amser chwarae. Ym Mhen-y-bryn, rhoddodd blant Blwyddyn 6 gyflwyniad arbennig o dda er mwyn egluro'r gwaith a'r defnydd sy'n cael ei wneud

o'r holiadur Siarter Iaith a'r data a ddaw ohono. Bu'r Dreigiau Doeth yna'n dangos y gemau buarth sy'n cael eu chwarae er mwyn hybu'r defnydd cymdeithasol o'r iaith. Hefyd, croesawyd cyn-ddisgyblion yn ôl i'r ysgol, sef plant Blwyddyn 7 Ysgol Dyffryn Ogwen, er mwyn iddynt allu egluro'r gwaith a wnaethpwyd y llynedd er mwyn hybu'r Gymraeg yn yr ysgol a'r cartref. Siaradodd y plant i gyd yn aeddfed a brwdfrydig ac roedd yr ymwelwyr i gyd wedi gwirioni!

Yasus Afari

Cafodd yr ysgol ymwelydd arbennig iawn ddydd Llun, Hydref 19, sef Yasus Afari. Bardd a cherddor o Jamaica ydi Yasus, a daeth i'r ysgol er mwyn cynnal gweithdai gyda phob dosbarth. Bu'r plant yn dysgu am ei fagwraeth a thraddodiadau Jamaica a hefyd yn canu a barddoni. Diolch o galon i Yasus am ddod atom a gobeithiwn iddo ymweld eto yn y dyfodol.

PC Meirion Williams

Daeth PC Meirion Williams atom ni yn ystod mis Hydref er mwyn siarad am ymddygiad. Rhoddodd gyflwyniad i bob

dosbarth a chafodd y plant wyluo ffilm a holi cwestiynau. Diolch yn fawr am eich ymweliad; welwn ni chi y tymor nesaf.

Disgo'r Urdd

Aeth 58 o aelodau'r Urdd i'r disgo ar 18 Hydref yn Ysgol Tryfan. Diolch i DJ Iwan am y gerddoriaeth a diolch i bawb a fu'n trefnu a gweithio yno. Roedd y plant wedi mwynhau'r arw.

Sesiwn blasu pêl-droed

Daeth Ethan a Gareth o Glwb Pêl-droed Bangor i gynnal sesiwn blasu yn yr ysgol gyda rhai o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6. Bu i bawb fwynhau ymarfer sgiliau newydd ac roedd llawer yn awyddus i fynychu'r clwb ar ôl ysgol!

Bocsys Nadolig

Daeth Wyn a John o T4U i'r ysgol i siarad am sut y gall pobl gyffredin fel ni wneud gwahaniaeth go iawn trwy helpu gydag ymgyrch 'Rhowch gariad mewn bocs eleni' trwy wneud bocs esgidiau llawn anrhegion i blentyn bach yn Romania y Nadolig yma. Bydd y fan yn dod i gasglu'r bocsys ar 22 Tachwedd.

Ysgol Llanllechid

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda theuluoedd y diweddar Lorna Williams a’r diweddar Jodie Roberts yn fawr. Ffarweliwn â’r ddau ohoynynt yn llawer rhy gynnar. Anfonwn ein cofion annwyl atoch fel teuluoedd ar adeg hynod o anodd.

Profedigaeth

Ar nodyn trist arall, cafodd yr ardal gyfan ei hysgwyd pan glywyd am farwolaeth ddisymwth Mr Raymond Tugwell. Cofiwn am Mr Tugwell fel gŵr cymwynasgar oedd bob amser yn barod i helpu a meddwl am eraill. Ar hyd ei fywyd bu’n hynod weithgar yn codi arian at amrywiol elusennau, a chofiwn am yr holl waith da a gyflawnodd. Bydd yn chwith i’r ardal gyfan ar ei ôl ac anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at Ann a’r teulu oll yn eu hiraeth.

Llwyddiant

Yn ddiweddar, bu Blwyddyn 5 ar ymweliad â Llyfrgell Bethesda i gyfnewid llyfrau ac i bostio eu cardiau post ar y thema Roald Dahl. Roedd llunio’r cardiau post yn rhan o gystadleuaeth a drefnwyd gan y llyfrgell i ysgolion Gwynedd yn ystod y tymor hwn. Cawsom glywed, cyn i Llais Ogwan fynd i’r wasg, fod disgyblion Ysgol Llanllechid wedi dod i’r brig yn y gystadleuaeth hon. Llongyfarchiadau i Ffion Meredith (Blwyddyn 5) ar ei llwyddiant ac i’r dosbarth hefyd. Bydd Ffion yn derbyn pecyn o adnoddau, a’r ysgol yn derbyn sioe “Mewn Cymeriad” fel gwobr. Da iawn yn wir!

Codi tatws

Yn ystod tymor yr haf bu Blwyddyn 4 wrthi’n brysur yn plannu hen datws yng ngardd yr ysgol. Bu cyfleoedd i chwynnu a phalu a phawb yn chwys domen! Yna, cyn hanner tymor yr hydref buom yn codi’r tatws! Ac am gnwd! Ar ddydd Gwener olaf cyn yr hanner tymor, cafwyd profi’r cyfan drwy goginio cawl tatws a chennin yn y dosbarth. Pa ffordd well o gloi’r hanner tymor hwn!

Diwrnod y chwedegau

Thema dosbarth Mrs Tegid oedd y chwedegau a bu’r disgyblion yn dysgu am Dryweryn a chysylltiad Lerpwl â’r hanes. Cafwyd taith anturus i Lerpwl a chyfle i ymweld ag amgueddfa’r Beatles ac ati. Cafwyd diwrnod o raeadru gwaith yr hanner tymor yn y dosbarth a phawb wedi rhyfeddu at swmp y gwaith a gyflawnwyd!

Llanberis

Fel rhan o waith Blwyddyn 4, sef dosbarth Mrs Marian Jones, am y chwareli, aeth y dosbarth i Lanberis am y diwrnod, gan alw yn gyntaf yn ysbyty’r chwarel. Gwelwyd

rhyfeddodau yno, yn ogystal â dysgu am y damweiniau erchyll a ddigwyddai yn ein chwareli llechi ers talwm. Yna ymlaen i Chwareli Glyn Vivian, lle gwelsom nofwyr tanddwr yn ymddangos ar wyneb y llyn! Treulio’r pnawn, wedyn, yn yr Amgueddfa Lechi lle cafwyd profiadau lu, - o ffilmiau, a sgysiau i weld yr olwyn ddŵr enfawr a thŷ o gyfnod y Streic Fawr. Dyma rai o gerddi`r disgyblion â ysbrydolwyd gan y profiad o ryfeddu at y nofwyr tanddwr ym mhwl tywyll y chwarel wrth gofio am yr oes â fu:

O Dan y Dŵr

Disgyn yn araf i lyn y chwarel...
Clywed ysbryd chwarelwyr yn taro`r cŷn
Clywed sŵn anadlu trwm
Nofio, nofio drwy’r twneli tywyll
Ofn, ofn y dŵr lliw glas y nos
Chwilio, chwilio am sgerbydau’r chwarelwyr
Gweld dim...
Dim ond clywed lleisiau llwglyd yn canu calon lân.

Mari Watcyn

O Dan y Dŵr

Disgyn yn araf i lyn y chwarel
Chwilio am bethau yn y tywyllwch.
Gwrando ar ysbrydion y chwarelwyr....
Teimlo’r llechi pigog a miniog!
Edrych ar y swigod mawr...
Clywed y cynion a’r morthwylion blinedig
yn curo a churo yn ddi-baid,
A lleisiau swynol y chwarelwyr yn canu calon lân.
Gweld sgerbydau di-liw yr hen chwarelwyr
yn hollti a naddu
A gwrando ar ysbrydion y penaethiaid cas
yn gweiddi ar y chwarelwyr druan.
Erbyn hyn mae’r cyfan yn bell, bell, bell o dan y dŵr du!

Elan Jones

Cadw’n Heini

Fel rhan o’n thema daeth Mr Ross Roberts, sef tad Evie a Harri, i siarad gyda dosbarthiadau Mrs Williams, Mrs Bethan Jones a Mrs Llinos Wilson am bwysigrwydd cadw’n heini. Ar ôl sgwrs ddifyr, cafwyd sesiwn cadw’n heini. Roedd gan Mr Roberts adnoddau diddorol oedd galluogi’r



disgyblion i fesur curiad calon cyn ac ar ôl ymarfer yn ogystal ag adnoddau i fesur pa mor heini a chryf oedd pawb! Cafwyd bore prysur nes oedd bochau coch fel tomatos gan bob un!! Diolch yn fawr Mr Roberts!

Gweithdy Gwyddoniaeth

Braint oedd croesawu Dr Dylan Jones o’r Adran Wyddoniaeth, Prifysgol Bangor i’r ysgol. Bu’n egluro swyddogaeth y gwahanol organnau ac roedd o wedi dotio at wybodaeth y disgyblion! Diolch Dr Jones.

Beicio

Does dim dwywaith fod llwyddiannau’r beicwyr yn Rio wedi ysbrydoli llawer gan gynnwys y Cymry Owain Doull a Becky James. Fe welsom yn Rio fod angen bod yn ofalus ar y ffyrdd, ac yn flynyddol mae disgyblion Blwyddyn 6 yn derbyn hyfforddiant beicio. Bu’r criw egnïol wrthi yn datblygu eu sgiliau dan oruchwyliaeth Ifan, Paul a Steve gan basio eu lefel 1 a 2. Llongyfarchiadau i bawb gymrodd ran!

Bwystfilod bychan

Daeth Rosanna Robinson o Brifysgol Bangor gyda llu o fwystfilod bychan i ysgogi diddordeb disgyblion Blwyddyn 6. Cafwyd prynhawn difyr o astudio drwy ddefnyddio meicrosgopau ac allweddau ynghyd â chreu bwystfilod eu hunain gyda Selena – myfyrwraig o’r Brifysgol. Rydym yn ddiolchgar am y cyswllt agos sydd gennym â’r brifysgol. Diolch am ysbrydoli’r disgyblion unwaith eto.

Diolchgarwch

Mae gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Llanllechid bob tro yn denu cynulleidfaf gref – a dyna fu’r hanes eto eleni gyda llond y neuadd o rieni a theidiau a neiniau wedi ymgynnull i wrando ar holl ddisgyblion yr ysgol. O’r rhai ieuengaf yn yr ysgol feithrin, dan arweiniad anti Debbie, i’r rhai hynaf, cafwyd bore benedigedig gan forio canu a chyflwyniadau amrywiol ar lafar. Diolch i’r rhieni am gefnogi, i’r holl staff am baratoi ac wrth gwrs i’r disgyblion am roi o’u gorau. A diolch arbennig i Mr Huw Edward Jones am ei waith clodwiw wrth y piano.

Ymweliad gan yr Uchel Sirydd

Cafwyd y fraint o groesawu Peter Harlech Jones, Uchel Sirydd Gwynedd, i’r ysgol i siarad gyda rhai o’r disgyblion am ein systemau gwrth-fwllo. Cadeirwyd y cyfarfod gan Mr Huw Edward Jones a bu’r plant yn byrlymu siarad a thrafod yr agwedd hon. Diolch yn fawr iawn am alw draw i’n gweld ac am roi cydnabyddiaeth i ni o’r gwaith da.


Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Llais corawl (3)
- 3 Heb falais na meddwl drwg (6)
- 7 Mae rhan go fawr o'r haul yn rhoi hwn i ni (5)
- 8 Y festri ers talwm mewn rhai ardaloedd (7)
- 10 Rhoir i chi dymor i fynd i nofio mewn trefn gywir (7)
- 11 Tynnu dim o'r daioni cymhleth wnaiff y wlad fawr Asiaidd yma (5)
- 12 Digroeso, ac achos i swatio'n gynnes (6)
- 14 Rhowch iddo ef ddiod neu bydd y syched yn gwneud hyn iddo (6)
- 17 I lawr y cefn wrth gael profiad ysgytwol (5)
- 19 Swnian a grwgnach yw ei natur (7)
- 21 Ydi duw'r môr 'n byw rhwng Llŷn a Meirion? (7)
- 22 Dydd Iau ar lafar tafodieithol rhai mannau (5)
- 23 Cartref tôn "Dros Gymru'n gwlad, O! Dad dyrchafwn gri" (6)
- 24 Cylchgrawn smala, deifiol weithiau, sy'n 50 oed (3)

I LAWR

- 1 Stori ar gân mewn mydr ac odl (5)
- 2 Dygymod â rhywbeth anllad neu annymunol (7)
- 3 Malurio a darnio (6)
- 4 Rhannu siâr i ofalu fod pawb yn cael digon rywsut (5)
- 5 Ymestynnodd (7)
- 6 Rheolau personol sy'n dylanwadu ar ymddygiad rhywun (10)
- 9 Gweithred i geisio gwella a pherffeithio (10)
- 13 Eidalwr a roes inni rai o'r operau enwocaf (7)
- 15 Arian digolledu (7)
- 16 Hen ran yn groes yn rhoi un allan o ddau (6)
- 18 Asiad, fel gweithred priodas (5)
- 20 Duw, ein tad ---- (5)



ATEBION CROESAIR HYDREF 2016

AR DRAWS 1 Talp, 4 Mwgwd, 9 Meithrin, 10 Achwyn, 11 Awch, 12 Maldodais, 13 Domino, 15 Pinsio, 18 Anghydweld, 19 Mwd, 20 Y Ffrae, 21 Cymanfa, 23 Noddwr, 24 Chwys

I LAWR 2 Afiach, 3 Pêr, 4 Manylu, 5 Gwahoddiad, 6 Dowlais, 7 Amnaid, 8 Ynys, 12 Mynedfeydd, 14 Maharen, 16 Oedran, 17 Seicar, 18 Awydd, 19 Mynwy, 22 Moch

Dyma gamgymeriadau y tro yma: 'meheryn' (lluosog) yn lle 'maharen' (unigol), 'dimwnt' yn lle 'domino', 'anghydynd' yn lle 'anghydweld', 'syddcar' yn lle 'seicar' a 'pur' yn hytrach na 'pêr' (Y Pêr Ganiedydd).

Llongyfarchiadau i'r canlynol am atebion cywir: Falyri Jenkins, Tal-y-bont, Ceredigion; Dulcie Roberts; Rosemary Williams; Elizabeth Buckley, Tregarth; Gwenda Davies, Llanfairpwll; Dilys W. Griffith, Abergele; Doris Shaw, Bangor; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Derek a Mai Jones, Rhiwlas; Ann Carran; Gaynor Elis-Williams; Rita Bullock, Bethesda; Ellen Whitehouse, Birmingham; Gareth William Jones, Bow Streert; Myra a Gwilym Evans, Niwbwrch; Karen a Tom Williams; Elfed Evans, Llanllechid; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Ann a Dafydd Evans, Penisarwaun.

Ond yn fuddugol y tro hwn y mae ymgais Gwen a Bryn Evans, 4 Ystâd Coetmor, Bethesda LL57 3DR. Da iawn chi. Atebion erbyn 2 Rhagfyr, 2016 i 'Croesair Tachwedd', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Atebion erbyn 24 Awst, 2016 i 'Croesair Gorffennaf/Awst'
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

.....

Cyfeiriad

.....

.....

.....

Ysgol Dyffryn Ogwen



Prif Ddisgyblion

Dyma brif ddisgyblion yr ysgol am y flwyddyn – Rhiannon Llwyd, Luke Crowe, Manon Hughes, Math Owen, Iago Davies ac Elan Gilford. Manon a Math yw’r prif ddisgyblion a Rhiannon, Luke, Iago ac Elan yw’r dirprwyon.

Wythnos Sgiliau

Cynhaliwyd wythnos sgiliau ddechrau mis Hydref. Yr oedd rhaglen bwrpasol a diddorol wedi ei threfnu ar gyfer yr holl flynyddoedd. Yn ystod yr wythnos, cafwyd cyflwyniadau yn ymwneud â Jamaica gan y bardd Yasus Afari, sgysrsiau ar y cysylltiad rhwng teulu Castell y Penrhyn a Jamaica gan y Dr Marian Gwyn, a sesiwn ar gerddoriaeth Jamaica. Mae’r ysgol yn gobeithio datblygu’r berthynas yma drwy gyswllt gydag Ysgol Edwin Allen yn Jamaica.

Mae’r disgyblion wedi datblygu llu o sgiliau gwerthfawr a fydd yn eu gwneud yn well dysgwyr ac yn eu paratoi i gyfrannu’n llawn i’w cymunedau yn y dyfodol.

Cofio Aberfan

Mae cofio am blant a theuluoedd Aberfan wedi bod yn brofiad emosiynol iawn i’r ysgol. Cynhaliwyd gwasanaeth ysgol gyfan i gofio am drychineb Aberfan, a chafwyd cyflwyniad pwerus iawn a oedd yn gymysgedd o luniau a chlipiau fideos o’r oriau a’r dyddiau yn syth wedi’r drychineb i gyfeiliant cerddoriaeth Karl Jenkins a oedd wedi cael ei chyfansoddi yn arbennig ar gyfer yr achlysur. Diolch i Ms Jeni Lyn Morris am wneud y cyflwyniad yma. Bu nifer o’r gwersi hefyd yn cofio’r digwyddiad. Yna, am 9.15 fore Gwener, Hydref 21ain cafwyd munud o dawelwch drwy’r ysgol i gofio’r digwyddiad. Diolch hefyd i Dafydd Herbert Pritchard o Flwyddyn 9 am gyfansoddi cân emosiynol iawn i gofio am blant Aberfan. Gellir clywed Dafydd yn perfformio’r gân ar YouTube

Adran Addysg Gorfforol
Llysgenhadon

Llongyfarchiadau gwresog i Efa Glain Williams a Sion Davies (Bl11) ar gael eu dewis i gynrychioli Gwynedd mewn

cynhadledd genedlaethol i Lysgenhadon Chwaraeon safon Aur yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Bu’n brofiad gwerthfawr iawn i’r ddau ohonynt gyda nifer o swyddogion Chwaraeon Cymru yn eu cyfarch a’r enwog Richard Parks yn cyflwyno araith ysbrydoledig. Bydd y ddau y cychwyn ar eu gwaith o godi proffil chwaraeon a hybu cyfranogiad yn y dyfodol agos. Pob lwc i’r ddau ohonynt.

Dyma hanes eu profiad:
“Ddydd Iau, 20fed Hydref roeddwn i, Efa Glain Williams, a Sion Davies yn lwcus iawn i gael mynychu Cynhadledd Llysgenhadon Ifanc Aur Cymru yng Nghaerdydd a drefnwyd gan Chwaraeon Cymru. Roeddem yn cynrychioli Gwynedd fel Llysgenhadon Ifanc Aur ynghyd â chwe disgybl arall o Ysgol Brynrefail ac Ysgol Syr Hugh Owen.

Swydd Llysgennad Ifanc ydi codi hyder plant a phobl ifanc yr ardal mewn chwaraeon, i arwain sesiynau ac i ddatblygu syniadau newydd i hybu gweithgareddau chwaraeon yn y gymuned.

Roedd y gynhadledd yn Stadiwm Tîm Pêl-droed Caerdydd. Wedi derbyn ein crysau T Llysgenhadon Ifanc, cychwynnodd y diwrnod gyda Seremoni Agoriadol. Richard Parks oedd yn siarad hefo ni, sef cyn-chwaraewr rygbi proffesiynol sydd bellach yn ddringwr er iddo ddioddef anaf drwg. Roedd ei hanes wedi ein hysbrydoli ni i gyd. Wedyn buom mewn gweithdai i roi syniadau newydd i ni fel Llysgenhadon a hefyd i’n gwneud yn fwy hyderus i siarad hefo pobl newydd.

Cawsom ein hysbrydoli gan wahanol bobl o fyd chwaraeon sydd wedi bod yn cystadlu yn y gemau Olympaidd. Yr oeddynt i gyd yn ein hannog i anelu’n uchel ac i geisio gwireddu ein potensial. Ar ddiwedd y dydd roedd llysgenhadon Gwynedd yn datblygu syniadau ar gyfer gwella cyfleoedd chwaraeon yn ein hardal ni.



Sion Davies ac Efa Williams

Roedd y profiad yma yn un bythgofiadwy, roedd yn gyfle gwych a dechrau newydd i ni i hybu plant a phobl ifanc i’n cynorthwyo i wneud ein gwaith. Ein swydd ni rŵan ydi cynnal cynhadledd i Lysgenhadon Arian yr ardal er mwyn cael mwy o syniadau i’n hardal ac i’r ysgol, i ddatblygu clybiau chwaraeon o bob math i bob oedran - rhywbeth i bawb! Diolch i Hannah Hughes ein Swyddog 5x60 am fynd â ni ar y daith hon a oedd yn llawn hwyl ac yn addysgiadol i ni fel Llysgenhadon Ifanc.”

Rygbi Gogledd Cymru

Cefais i Iago Davies a Shaun Thomas sydd yn gyn-ddisgybl yn yr ysgol ein dewis fel rhan o garfan rygbi dan 18 RGC i fynd i chwarae mewn twrnamaint ym Mharc yr Arfau Caerdydd o’r enw ‘WRU super 6’. Roedd pob un o ranbarthau rygbi Cymru yn cystadlu. Y Dreigiau oedd ein gwrthwynebwr cyntaf a mi enillon ni y gêm o 25 i 20. Y Gleision oedd ein hail gêm a nhw yn draddodiadol yw’r rhanbarth a’r tîm dan 18 gorau. Mi enillon ni eto yn eithaf cyfforddus o 25 i 5. Welsh Exiles o dan 19 oedd ein gêm olaf ac roedd pawb wedi blino ar ôl diwrnod hir. Roedd llawer o anafiadau yn y sgwad felly colli fu ein hanes ni ond mi roedd o yn ddiwrnod llwyddiannus iawn i’r tîm.

Pêl-rwyd

Llongyfarchiadau mawr i’r ddwy chwaer, Alaw Môn Gilford (Bl10) ac Elan Môn Gilford (Bl13), ar gael eu dewis i garfan ddatblygu a charfan berfformiad pêl-rwyd Gogledd Orllewin Cymru. Bydd y ddwy yn treialu ar gyfer timau ysgolion Eryri yn y dyfodol agos. Hefyd, da iawn Alaw ar lwyddo yn ei chwrs dyfarnu pêl-rwyd yn ddiweddar.

Pêl-droed dan 14

Gêm gwpan yn erbyn Ysgol Dyffryn Conwy: sgôr amser llawn 3 – 3; Daniel Hughes x2, Tomos Hughes x1. Cafwyd ciciau o’r smotyn i gael enillydd, gyda Dyffryn Ogwen yn fuddugol 4 – 3. Daniel Hughes, Noa Hughes, Tomos Hughes ac Owain Fever yn sgorio.

Rygbi dan 14

Gêm gynghrair Ysgol Dyffryn Ogwen yn erbyn Tryfan: gêm gyfartal; sgôr 7 – 7.

Rygbi dan 16

Yn y gynghrair dan 16, cafodd y tîm gêm yn erbyn Ysgol Friars. Ysgol Dyffryn Ogwen oedd yn fuddugol. Sgôr 36 – 5.